Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# DADANSODDIAD O EFFAITH ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL DIWYGIADAU I'R PAC AR GEFN GWLAD CYMRU

## Cam 6

## CASGLIADAU AC ARGYMHELLION POLISI

## 2013

**ADRODDIAD TERFYNOL Y PROSIECT YMCHWIL:**

**DADANSODDIAD O EFFAITH ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL DIWYGIADAU I'R PAC AR GEFN GWLAD CYMRU**

**Cam CHWECH – THEMAU A GOBLYGIADAU AR GYFER POLISIAU AC YMYRIADAU LLYWODRAETH CYMRU**

## Adran Un Cyflwyniad a Chyd-destun

### 1.1 Y prosiect cyffredinol

Dyma adroddiad terfynol prosiect ymchwil aml-gam a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru [LlC]. Roedd y prosiect ymchwil yn cynnwys y nodau canlynol:

1. Archwilio sut y gallai ffermwyr ymateb i newidiadau yn eu taliad PAC.

2. Ystyried sut y gallai ymatebion ffermwyr gael effaith ar:

   – fusnesau cymorth

   – y sectorau prosesu bwyd a manwerthu

   – yr economi wledig a'r gymdeithas.

3. Nodi'r hyn y gallai'r newidiadau hyn ei olygu i bolisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru.

4. Llywio gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-20.

Roedd gan y prosiect bum Cam ymchwil ynghyd â chasgliad. Nodir y Camau hyn yn dilyn y disgrifiad hwn o amcanion y prosiect. Wrth ymwneud â'r pum Cam ymchwil edrychodd y prosiect hefyd ar ddwy thema drawsbynciol:

a. Nodi pa fath o gymorth y gallai busnesau ffermio fod ei angen o ran hyfforddiant, cyngor busnes a chynllunio ar gyfer olyniaeth (a beth y gallai hyn ei olygu i ymyrraeth bresennol Llywodraeth Cymru megis Cyswllt Ffermio).
b. Ystyried sut y gallai rheolaeth gynllunio a chyflenwad tai ddylanwadu ar ymatebion ac effeithiau aelwydydd ffermio, y diwydiannau cymorth ffermio a bwyd a'r gymdeithas wledig ehangach.

Caiff canlyniadau'r Camau hyn eu nodi mewn tri adroddiad ar wahân: yr Adroddiad ar Gamau Un a Dau, yr Adroddiad ar Gamau Tri, Pedwar a Phump, a'r Adroddiad Terfynol hwn. Dylid nodi, er bod yr adroddiadau'n sefyll ar wahân, maent yn ffurfio un adroddiad integredig gyda'i gilydd. Er mwyn darparu cyd-destun, mae cynnwys yr adroddiadau wedi'u hamlinellu isod.

### 1.2 Amlinelliad o'r Adroddiad ar Gamau Un a Dau

Gwnaeth yr adroddiad hwn ddadansoddi Dadansoddiad Incwm Llywodraeth Cymru (Cam Un) a chanlyniadau arolwg o 3,000 o aelwydydd ffermio yng Nghymru (Cam Dau). Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig cyd-destun manwl a rhesymeg ar gyfer y prosiect ymchwil yn gyffredinol.

Man cychwyn y prosiect oedd Cam Un, sef y gwaith modelu ariannol a wnaed gan dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, sy'n nodi effaith ariannol newidiadau rhagweledig i'r PAC. Defnyddiwyd y data hyn i nodi pa wahaniaeth y byddai'r newidiadau hyn yn ei wneud i incymau aelwydydd fferm. Rhoddwyd sylw penodol i effeithiau daearyddol ac o ran sector fferm; maint effeithiau penodol; a'r broses o nodi clystyrau daearyddol.

Roedd Cam Dau yn mynd i'r afael â'r ffordd yr oedd aelwydydd ffermio'n bwriadu ymateb i'r newidiadau. Casglwyd y wybodaeth hon drwy arolwg o aelwydydd ffermio. Roedd dwy elfen i'r arolwg hwn. Yn gyntaf, roedd prif arolwg o 2,400 o aelwydydd ledled Cymru wedi ei haenu ar dair lefel flaenoriaeth:

- Blaenoriaeth 1: pum categori o ran maint fferm economaidd, gyda chwota ym mhob categori
- Blaenoriaeth 2: pum categori o ran math o fferm, gyda chwota ym mhob categori
- Blaenoriaeth 3: saith rhanbarth amaethyddol, gyda chwota ym mhob categori


Roedd yr arolwg hwn o aelwydydd fferm yng Nghymru yn un a wnaed ar hap; o ganlyniad, gallai'r canlyniadau fod wedi'u cyffredinoli ledled Cymru.

Yn ail, o ddadansoddiad o ddata'r prif arolwg, dewiswyd tair ardal ddaearyddol ar gyfer gor-samplu. Roedd y tair ardal a ddetholwyd o fewn cwmpas 30km o amgylch yr aneddiadau hyn:

- Arberth yn y de-orllewin – godro yn bennaf
- Blaenau Ffestiniog yn y gogledd-orllewin – ffermio ar fryniau mewn Ardaloedd dan Anfantais Fawr ac Ardaloedd dan Anfantais yn bennaf
- Llanidloes yng nghanolbarth Cymru - cymysg

Mae'r tri arolwg hyn, gan gyfuno'r cyfweliadau a orsamplwyd a'r elfennau o fewn ardal o'r prif arolwg, yn cyfateb i arolwg ar hap o ffermwyr ym mhob ardal. O ganlyniad, roedd modd i'r canlyniadau gael eu cyffredinoli o fewn pob ardal. Ceir esboniadau manwl o ddulliau'r arolwg yn yr adroddiad.

Mae Ffigur 1.1 yn dangos y tair ardal ddaearyddol a dosbarthiad cyfweliadau'r arolwg yn y tair ardal a ledled Cymru.


0 12.5 25 50 Kilometers
British National Grid
1:700,000

Nod dadansoddiad yr arolwg oedd nodi pa newidiadau, os oedd rhai o gwbl, y gallai aelwydydd ffermio eu gwneud ar ôl diwygio'r PAC. Er enghraifft, pa un a fyddai cartrefi fferm yn newid eu harfer ffermio, yn ehangu neu'n lleihau, yn gadael ffermio, yn arallgyfeirio eu ffermio neu'n chwilio am gyflogaeth arall neu ategol oddi ar y fferm. At hynny, lle y rhagwelwyd newidiadau i arferion presennol gan y gwaith dadansoddi, aethpwyd ati i fesur yr effaith ar gynhyrchu nwyddau ffermio a chyflogaeth ffermio. Yn yr adroddiad, roedd dadansoddiad arolwg Cam Dau wedi'i integreiddio gyda dadansoddiad incwm Llywodraeth Cymru ar gyfer Cam Un.

Yn ogystal, darparodd y dadansoddiad o ddata'r arolwg o'r tair ardal hon y sail ar gyfer y cyfweliadau dilynol gyda ffermwyr - gweler isod yn yr 'Adroddiad ar Gamau Tri, Pedwar a Phump'.

### 1.3 Adroddiad ar Gamau Tri, Pedwar a Phump

Roedd Camau'r ymchwil yn archwilio effeithiau posibl diwygio'r PAC fod ar gymdeithas wledig a'r economi wledig. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer Cam Tri, Pedwar a Phump yn dilyn ymlaen o'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer Cam 2 ac yn seiliedig ar gyfweliadau trylwyr gyda ffermwyr. Fel y soniwyd uchod, cafodd y cyfweliadau hyn eu nodi o ddadansoddiad yr arolwg. 10 oedd nifer targed y cyfweliadau ym mhob ardal ddaearyddol, ond cynhaliwyd naw cyfweliad yn Llanidloes, ardal y Canolbarth, 11 ym Mlaenau Ffestiniog, ardal gogledd-orllewin Cymru a 10 yn Arberth, ardal de-orllewin Cymru, a gyrhaeddodd y cyfanswm targed o 30 cyfweliad.

Dylid nodi y rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai cyfres o gyfweliadau gyda chynrychiolwyr y sectorau prosesu bwyd a manwerthu ar gyfer Camau 3, 4, a 5. Fodd bynnag, cafwyd problemau'n trefnu'r cyfweliadau hyn. O ran dull, nodwyd darpar gyfweleion drwy'r dull 'pêl eira'. Hynny yw, cafwyd enwau'r manwerthwyr a'r darparwyr gwasanaeth lle'r oedd y ffermwyr yn prynu, a'r proseswyr bwyd a'r marchnadoedd roeddent yn gwerthu iddynt, yn ystod y cyfweliadau fferm trylwyr. Ychwanegwyd at y gronfa hon o ddarpar gyfweleion trwy chwilio ar y rhyngrwyd. Ond wrth geisio trefnu cyfweliadau, roedd diffyg cydweithrediad eang a bron yn llwyr. Treuliodd ymchwilwyr Arsyllfa Wledig Cymru oriau lawer yn ceisio trefnu cyfweliadau, dim ond i gael eu hatal gan achosion o osgoi a gwrthodiadau llwyr. Mewn un achos er enghraifft, cysylltodd ymchwilydd Arsyllfa Wledig Cymru â phrosesydd dros y ffôn ac fe'i trosglwyddwyd i'r unigolyn priodol. Yn gyntaf, bu holi hirfaith a dealladwy i ddarganfod cymwysterau'r ymchwilydd a chyd-destun y prosiect ymchwil. Yna, cynigodd yr ymchwilydd gyfweliad dros y ffôn, ar amser cyfleus i'r darpar gyfwelai, neu gyfweliad wyneb yn wyneb, unwaith eto ar amser ac mewn lle a fyddai'n gyfleus i'r cyfwelai. Dywedodd y cyfwelai, 'byddwn yn mynnu ar gyfweliad wyneb yn wyneb ar gyfer rhywbeth fel hyn', a gofynnodd i'r ymchwilydd anfon e-bost yn gwneud cais ffurfiol ac yn awgrymu rhai dyddiadau posibl yn ystod yr wythnos ganlynol. Nodwyd hefyd gan gynrychiolydd y prosesydd y byddai'r e-bost yn brawf pellach o ddilysrwydd yr ymchwilydd. Anfonwyd yr e-bost yn briodol. Wedi rhai diwrnodau heb ateb, ffoniodd yr ymchwilydd eto ac fe'i hysbyswyd gan ysgrifennydd 'y bydd i ffwrdd am rai wythnosau ac mae'n dweud na fydd amser ganddo beth bynnag'. A 'na - nid oedd unrhyw un arall yn barod nac yn gallu cynnig cyfweliad'. Er bod hon yn enghraifft hynod rwystredig, bu sawl achos lle gofynnwyd i ymchwilwyr ffonio yn ôl neu anfon e-bost dim ond i gael eu hysbysu gan ysgrifenyddion bod y darpar gyfwelai wedi penderfynu peidio â chynnig cyfweliad. Yn y pen draw, dim ond un cyfweliad, gyda busnes a oedd yn gweithredu marchnadoedd da byw yn ne-orllewin Cymru, gafodd ei drefnu ac mae'r data hwn wedi ei gynnwys gyda data'r cyfweliadau eraill yn yr adroddiadau. Yn dilyn

trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, ac o ystyried yr amserlen ar gyfer y prosiect ymchwil cyffredinol, penderfynwyd peidio â dilyn y dull archwilio hwn ymhellach ond i ddod i gasgliadau o'r data a dderbyniwyd gan ffermwyr eisoes, sy'n cwmpasu llawer iawn o'r gwaith ymchwil hwn. Roedd ffermwyr yn rhannau pwysig, a'r mwyaf blaenllaw mae'n debyg, o'r cymunedau a astudiwyd ac yn gyfranwyr mawr at yr economïau lleol sy'n gysylltiedig â'r cymunedau hynny. Hefyd, gellid darganfod, i ryw raddau, unrhyw effeithiau ar y sectorau prosesu bwyd a manwerthu a allai ddigwydd oherwydd newidiadau posibl i incymau cartrefi ffermio yn sgil diwygio'r PAC, o'r ymatebion i'r cwestiynau prynu a gwerthu yn nata'r arolwg a'r cyfweliadau.

### 1.4 Adroddiad Terfynol: themâu a goblygiadau ar gyfer polisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru

Mae'r adroddiad terfynol hwn, fel cam olaf y prosiect, yn crynhoi themâu cyffredin a phwysig o'r pum cam ymchwil ac yn asesu eu goblygiadau i bolisi ac ymyriadau Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn ystyried beth mae'r newidiadau a'r ymatebion a ragwelir yn gyffredinol yn ei olygu i gefn gwlad Cymru ac yn amcangyfrif i ba raddau, os o gwbl, maent yn bwysig ai peidio.

Mae strwythur yr adroddiad Terfynol hwn fel a ganlyn:

Adran 1 Cyflwyniad a Chyd-destun

Adran 2 Mynd i'r afael â Nodau ac Amcanion y Prosiect

Adran 3 Themâu sy'n dod i'r amlwg

Adran 4 Casgliadau a Goblygiadau Polisi

## Adran Dau Mynd i'r afael â Nodau ac Amcanion y Prosiect

### 2.1 Nodau ac Amcanion y Prosiect

Fel y disgrifir yn y paragraff agoriadol, roedd gan y prosiect bedwar nod:

1. Archwilio sut y gallai ffermwyr ymateb i newidiadau yn eu taliad PAC.

2. Ystyried sut y gallai ymatebion ffermwyr gael effaith ar:

   - fusnesau cymorth
   - y sectorau prosesu bwyd a manwerthu
   - yr economi a'r gymdeithas wledig ehangach.

3. Nodi'r hyn y gallai'r newidiadau hyn ei olygu i bolisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru.

4. Llywio gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-20.

O'r nodau hyn, lluniwyd yr Amcanion canlynol ym Manyleb y Prosiect:

1. Edrych ar effaith newidiadau tebygol i'r PAC ar incymau fferm.

2. Rhagweld sut y gallai aelwydydd fferm ymateb i newid yn eu hincwm.

3. Ystyried sut y gallai newidiadau effeithio ar gymdeithas a'r economi yng nghefn gwlad Cymru.

Roedd yr Adroddiad ar Gamau Un a Dau isod yn mynd i'r afael ag Amcanion 1 a 2, tra bod yr Adroddiad ar Gamau Tri, Pedwar a Phump, yn ogystal â mynd i'r afael ag Amcan 3, yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach o Amcanion 1 a 2.

### 2.2. Amcan Un - Edrych ar effaith newidiadau tebygol i'r PAC ar incymau fferm

Roedd canfyddiadau allweddol o ddadansoddiad incwm Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag Amcan 1. Er nad oes diben mewn ailadrodd yr Adroddiad cyfan ar Gamau Un a Dau, mae'n ddefnyddiol dangos rhywfaint o'r dadansoddiad a'r cyfrifiadau, sy'n sail i'r canfyddiadau allweddol. Yn y disgrifiad cryno sy'n dilyn, caiff rhifau Tablau a Ffigurau'r Adroddiad ar Gamau Un a Dau eu dangos mewn cromfachau.

Cyfrifodd y dadansoddiad, gan ddefnyddio data blwyddyn 2010, cymorthdaliadau cyfartalog (cymedr rhifyddol) y PAC i ffermydd yng Nghymru (h.y. hawliau hanesyddol) ac archwiliodd sut y gellid ailddosbarthu'r taliadau hyn dan system taliadau cyfradd safonol. Yn 2010, ychydig dros 1.3 miliwn hectar oedd cyfanswm yr arwynebedd a hawliwyd ac ychydig o dan€331 miliwn oedd y cyllid ar gael. Gan ystyried y cyllid oedd ar gael a chyfanswm yr arwynebedd a hawliwyd fel cysonion, roedd rhannu'r cyllid oedd ar gael gan gyfanswm yr arwynebedd a hawliwyd yn rhoi taliad cyfradd safonol o ychydig yn llai na €248 yr hectar. Nodwyd hyn yn fras fel €250 yr hectar yn y dadansoddiad. Roedd dadansoddiad pellach yn dangos bod nifer fawr o ffermydd wedi

derbyn symiau bach o gymhorthdal yn 2010, a bod nifer fach o ffermydd wedi derbyn taliadau mawr. Derbyniodd cyfanswm o lai na 30 y cant o'r holl ffermydd tua 70 y cant o gyfanswm y taliadau; sef dosraniad a oedd yn dynesu rheol 80:20 Pareto.


Mae Tabl 2.1 (Tabl 3.2) yn dangos y data hwn trwy lunio 'bandiau hawl'.

**Tabl 2.1 Dosbarthiad ffermydd a hawl yn ôl yr hawl a dderbyniwyd yn 2010**

| Band hawl | Nifer y ffermydd | Hawl (€x000) | Cyfran o'r holl ffermydd | Cyfran o gyfanswm yr hawl |
|---|---|---|---|---|
| Llai na €1,000 | 1,533 | 877 | 9% | 0% |
| €1,000 - €4,999 | 3,751 | 9,994 | 23% | 3% |
| €5,000 - €9,999 | 2,341 | 17,198 | 14% | 5% |
| €10,000 - €24,999 | 4,175 | 69,905 | 25% | 21% |
| €25,000 - €49,999 | 3,009 | 105,655 | 18% | 32% |
| O leiaf €50,000 | 1,572 | 126,974 | 10% | 38% |
| Yr holl ffermydd | 16,381 | 330,603 | 100% | 100% |

Dangosir y data hwn yn raffigol yn Ffigur 2.1 (Ffigur 3.1).

**Ffigur 2.1 Dosbarthiad ffermydd a hawl yn ôl yr hawl a dderbyniwyd yn 2010**



Mae Tabl 2.2 (Tabl 3.3) yn dangos yr hawl hanesyddol fesul hectar. Lluniwyd bandiau mympwyol ar sail y cymedr a gyfrifwyd o €250 yr hectar.

**Tabl 2.2 Cyfran o'r ffermydd a hawl hanesyddol yn ôl hawl hanesyddol fesul hectar**

| Hawl fesul hectar | Nifer y ffermydd | Hawl (€x000) | Cyfran o'r holl ffermydd | Cyfran o gyfanswm yr hawl |
|---|---|---|---|---|
| Llai na €100 | 1,867 | 9,869 | 11% | 3% |
| €100 - €149 | 2,042 | 20,927 | 13% | 6% |
| €150 -€199 | 2,597 | 35,890 | 16% | 11% |
| €200 - €249 | 2,817 | 50,005 | 17% | 15% |
| €250 - €299 | 2,510 | 57,453 | 15% | 17% |
| €300 - €349 | 1,791 | 49,955 | 11% | 15% |
| €350 - €399 | 1,085 | 38,136 | 7% | 12% |
| O leiaf €400 | 1,672 | 68,369 | 10% | 21% |
| Yr holl ffermydd | 16,381 | 330,604 | 100% | 100% |

Mae'r tabl yn dangos y derbyniodd 57 y cant o ffermydd lai na'r cymedr a gyfrifwyd o €250 yr hectar.

Cyfrifwyd y taliadau fesul fferm dan y system cyfradd safonol gan ddefnyddio'r gyfradd safonol fesul hectar a gyfrifwyd o gyfanswm yr hawl a chyfanswm y tir a hawliwyd fesul fferm. Mae Tabl 2.3 (Tabl 3.4) yn dangos y newidiadau cymharol i daliadau.

**Tabl 2.3 Newid cymharol yn nosbarthiad y taliadau**

| Newid o hawl hanesyddol i gyfradd safonol | Nifer y ffermydd | Hawl (€x000) | Cyfran o'r holl ffermydd | Cyfran o gyfanswm yr hawl |
|---|---|---|---|---|
| Colli o leiaf 50% | 724 | 30,335 | 4% | 9% |
| Colli 30% - 49% | 1,922 | 72,583 | 12% | 22% |
| Colli 10% - 29% | 3,073 | 81,651 | 19% | 25% |
| O fewn 10% | 2,720 | 54,800 | 17% | 17% |
| Ennill 10% - 29% | 1,961 | 32,663 | 12% | 10% |
| Ennill 30% - 50% | 1,353 | 19.136 | 8% | 6% |
| Ennill dros 50% | 4,628 | 39,434 | 28% | 12% |
| Yr holl ffermydd | 16,381 | 330,604 | 100% | 100% |

Roedd y dadansoddiad yn ôl maint fferm (o ran allbwn economaidd yn hytrach nag arwynebedd y tir) [1] a math o fferm yn dangos bod y math "mwy" o fferm yn derbyn mwy na €250 yr hectar yn

[1] Economic Size Unit (ESU) farm size categories are: very small, small, medium, large and very large. As expFel y trafodwyd yn y Crynodeb i Adran Pump o'r Adroddiad ar Gamau Un a Dau, cadarnhaodd gor-samplu o'r tair ardal ddaearyddol yn fras nifer uchel o rai mathau disgwyliedig o ffermydd ym mhob ardal.

2010. Felly o dan system cyfradd safonol gyda thaliad o ychydig o dan €250 fesul hectar byddai'r ffermydd hyn yn cael taliad cymhorthdal llai. Yn ogystal, y ffermydd godro mwy oedd â'r gyfradd fwyaf o ffermydd yn derbyn dros €250 yr hectar (83 y cant). Derbyniodd bron i 70 y cant o'r ffermydd godro mwy fwy na €300 yr hectar. Hynny yw, o dan y system cyfradd safonol, byddent yn colli o leiaf €50 fesul hectar. Byddai bron i hanner (49 y cant) o'r ffermydd godro mawr yn colli o leiaf 30 y cant o'u hawl cyfredol oherwydd y newid i daliadau cyfradd safonol. Roedd ffermydd godro yn tueddu i fod â hawliau hanesyddol cymharol fawr, tra bod y ffermydd bach iawn yn tueddu i fod â hawliau llai. Ar y llaw arall, byddai ychydig o dan hanner y ffermydd defaid bach yn ennill o leiaf €50 fesul hectar o dan y cynllun cyfradd safonol. Yr enillwyr cymharol mwyaf fyddai'r ffermydd bach iawn lle roedd bron i 60 y cant o'r ffermwyr yn derbyn llai na €200 yr hectar yn 2010. Er bod y dadansoddiad hwn yn tueddu i ganolbwyntio ar ffermydd godro mawr a ffermydd bach iawn, mae'n bwysig nodi bod pob math o fferm wedi cael ei nodi fel ffermydd a allai fod yn destun i newidiadau posibl ac felly y byddai newid i daliadau cyfradd safonol yn effeithio ar bob sector amaethyddol. Yn fras, o safbwynt arian parod, byddai nifer fawr o ffermydd bach yn ennill symiau bach o arian, a byddai nifer fach o ffermydd mawr yn talu amdanynt wrth i bob un ohonynt golli symiau mwy o arian.

I grynhoi, dangosir y canfyddiadau allweddol o ddadansoddiad incwm Llywodraeth Cymru a aeth i'r afael ag Amcan 1 - Edrych ar effaith newidiadau tebygol i'r PAC ar incymau fferm - isod:

- O ran yr holl fathau "mwy" o ffermydd (o ran allbwn) roedd mwyafrif o'u ffermydd ar hyn o bryd yn cael mwy na €250 fesul hectar. Felly o dan system cyfradd safonol gyda thaliad o ychydig o dan €250 fesul hectar byddai'r ffermydd hyn yn cael taliad cymhorthdal llai.
- Byddai ffermydd llaeth ar y cyfan yn cael llawer llai o gyllid o dan daliad cyfradd unffurf na'u hawliad hanesyddol.
- Y ffermydd llaeth mwy oedd â'r gyfran fwyaf o ffermydd sy'n derbyn dros €250 fesul hectar (ychydig dros 80 y cant). Derbyniodd bron i 70 y cant o'r ffermydd godro mwy fwy na €300 yr hectar. Hynny yw, o dan y system cyfradd safonol, byddent yn colli o leiaf €50 fesul hectar.
- Ar y llaw arall, byddai ychydig o dan hanner y ffermydd defaid bach yn ennill o leiaf €50 fesul hectar o dan y cynllun cyfradd safonol. Yr enillwyr cymharol mwyaf fyddai'r ffermydd bach iawn lle roedd bron 60 y cant o'r ffermwyr yn cael o dan €200 fesul hectar.
- Roedd llawer iawn o amrywiad o ran y tueddiadau. Mae ffermydd godro a fyddai ar eu hennill o dan y newidiadau a ffermydd llai a fyddai ar eu colled.
- Mewn arian parod, byddai nifer mawr o ffermydd bach yn ennill symiau bach o arian, a fyddai'n cael eu talu gan nifer bach o ffermydd mwy a fyddai'n colli symiau mwy o arian.

Un o oblygiadau'r pwyntiau allweddol hyn yw, o dan daliadau'n seiliedig ar ardal, nid yn unig byddai ffermydd llaeth o bosibl yn cael taliadau PAC is, ond byddai ffermydd ag arwynebedd mwy o bosibl yn cael taliadau PAC uwch. Felly, byddai unrhyw symudiad tuag at daliadau seiliedig ar ardal, fel y rhagwelwyd ar gyfer diwygiadau'r PAC, yn dueddol o ffafrio'r ffermydd helaethach, o ran arwynebedd. Mae'r dadansoddiad hwn yn ategu'n fras y rhagdybiaethau y byddai (i) ffermydd llaeth yn cael llai o daliadau'r PAC a (ii) ffermydd y bryniau'n cael mwy o daliadau'r PAC.

### 2.3. Amcan Dau - Rhagweld sut allai aelwydydd fferm ymateb i newid yn eu hincwm

Er mwyn mynd i'r afael ag Amcan Dau, gwnaeth yr Adroddiad ar Gam Un a Dau gyfuno canfyddiadau Dadansoddiad o Incwm Llywodraeth Cymru â'r canfyddiadau o'r arolwg o'r aelwydydd fferm. Cyn archwilio ymatebion ffermwyr i newidiadau posibl i'r Taliad Sengl, roedd angen canfod pa mor ymwybodol oedd ffermwyr o'r newidiadau.

Roedd yr arolwg yn dangos er mai diwygio'r PAC oedd y pryder pwysicaf i ffermwyr, gyda 31 y cant o ffermwyr yn nodi mai dyma'r peth pwysicaf, dim ond 60 y cant oedd yn ymwybodol o'r diwygiadau posibl. Mae Tabl 2.4 (Tabl 4.3) yn dangos y data hyn.

**Tabl 2.4 Ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013 – arolwg Arsyllfa Wledig Cymru**

| | Nifer y ffermydd | Cyfran |
|---|---|---|
| **Oeddent** | 1,437 | 60% |
| **Nac oeddent** | 956 | 40% |
| **Gwrthod ateb** | 9 | |
| **Yr holl ffermydd yn yr arolwg** | 2,402 | 100% |

O'r arolwg, nododd 84 y cant (2,015 o ffermydd) eu bod yn derbyn y Taliad Sengl. Mae croesdablu yn dangos bod 1308 h.y. 65 y cant (1,308/2,015) o ffermydd sy'n derbyn y Taliad Sengl yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC. Mae cyfrannau'r ffermwyr sy'n ymwybodol o'r diwygiadau arfaethedig i'r PAC - 60 y cant o gyfanswm poblogaeth yr arolwg a 65 y cant o'r ffermwyr sy'n derbyn y Taliad Sengl - yn ymddangos braidd yn isel yn y ddau achos.

Mae Tabl 2.5 (Tabl 4.9) yn dangos, ar gyfer yr 84 y cant o ffermwyr a oedd yn ymwybodol o'r diwygiadau i'r PAC, pa mor ymwybodol oeddent o fanylion penodol y diwygiad.

**Tabl 2.5 Ymwybyddiaeth o fanylion penodol y diwygiadau arfaethedig i'r PAC ar ôl 2013**

| Newid i daliadau sy'n seiliedig ar ardaloedd | Mesurau gwyrddio | Rhoi trothwy ar daliadau | Pwyslais ar ffermwyr ifanc |
|---|---|---|---|
| 85% | 67% | 74% | 73% |

O ran y ffynonellau gwybodaeth, roedd oddeutu 19 y cant o'r arolwg wedi cael gwybodaeth am ddiwygio'r PAC gan y wasg ffermio, y cyfryngau, y teledu a'r Rhyngrwyd. Roedd y ffigurau ar gyfer Llywodraeth Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) yn 15 y cant a 12 y cant yn y drefn honno. Er bod potensial i atebion groesi ac am amwysedd yn y ffynonellau a'r ymatebion, roedd y data hwn yn dynodi'r tueddiad oddi wrth ffynonellau gwybodaeth ar bapur.

Mae dadansoddiadau o ymwybyddiaeth o'r agweddau amrywiol ar ddiwygio'r PAC yn ôl math o fferm, maint fferm, oedran ffermwr a deiliadaeth ar gael yn Adran Pedwar o'r Adroddiad ar Gam Un a Cham Dau.

Gofynnwyd i'r 1,437 o ffermwyr a oedd yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC sut roeddent yn disgwyl i'w taliadau i newid. Mae Tabl 2.6 (Tabl 4.12) yn dangos yr ymatebion hyn, gyda cholofn ychwanegol sy'n dangos y newidiadau a ragwelwyd gan ddadansoddiad Incwm Llywodraeth Cymru, a ddangosir yn Nhabl 2.3.

**Tabl 2.6 Y disgwyliad o newid i daliadau'n gysylltiedig â'r PAC wedi diwygio'r PAC ar ôl 2013**

| Y disgwyliad o newid | Nifer y ffermydd | Cyfran | Newid a ragwelwyd o Dabl 2.3 |
|---|---|---|---|
| Cynyddu | 142 | 10% | 48% |
| Gostwng | 863 | 60% | 35% |
| Aros yr un peth | 239 | 17% | 17% |
| Ddim yn gwybod | 172 | 12% | |
| Gwrthod ateb | 21 | 1% | |
| Ffermwyr yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC | 1,437 | 100% | |

Y pwynt sy'n sefyll allan o'r tabl yw'r gyfran fach (deg y cant) o ffermwyr a oedd yn disgwyl cynnydd i daliadau, sy'n groes i'r newid a ragwelwyd gan ddadansoddiad Incwm Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol felly, roedd y ffermwyr yn besimistaidd yn ddiangen ac yn disgwyl i'w taliadau PAC ostwng. Prin oedd y rhai a oedd yn disgwyl cynnydd.

Mae'r dadansoddiadau yn yr Adroddiad ar Gam Un a Dau yn awgrymu bod ffermydd godro mwy, a allai golli cymhorthdal, yn canolbwyntio mwy ar gynhyrchu amaethyddol, yn llai dibynnol ar y Taliad Sengl, yn perfformio'n dda yn economaidd, yn meddu ar fwy o ymwybyddiaeth fusnes ac yn fwy realistig ac yn fwy gwybodus am ddiwygio'r PAC, o'u cymharu â'r mathau llai o fferm a ffermydd defaid a gwartheg, y gallai nifer ohonynt, yn enwedig ffermydd bryniau, dderbyn cynnydd yn y Taliad Sengl. Yn wir, roedd y dadansoddiadau daearyddol yn tueddu i gefnogi'r damcaniaethau hyn. I ryw raddau, ymddengys bod ffermwyr yn ardal gogledd-orllewin Cymru, lle roedd mwy o ffermydd bryniau, yn ymwybodol o'u henillion posibl, oherwydd hwy oedd y lleiaf pesimistaidd o'r tair ardal: yn ardal de-orllewin Cymru roedd 64 y cant yn disgwyl gostyngiad mewn taliadau; yng nghanolbarth Cymru roedd y ffigur yn 69 y cant; ond yn y gogledd-orllewin roedd 55 y cant 'cymharol' isel yn disgwyl gostyngiadau yn nhaliadau'r PAC.

Yn fwy eang, roedd y dadansoddiadau hyn o 'ddisgwyliadau' yn nodi rhywfaint o ansicrwydd o ran sut y gallai'r newidiadau arfaethedig i daliadau 'r PAC effeithio ar ffermydd. Dynodir yr ansicrwydd hwn gan y besimistiaeth ddiangen a chan y cyfrannau cymharol uchel o ffermwyr nad oeddent yn gwybod pa newidiadau y gallent eu disgwyl i'w taliadau.

Wrth fynd i'r afael ag 'Amcan Dau - Rhagweld sut y gallai aelwydydd fferm ymateb i newid yn eu hincwm', rhoddwyd enghreifftiau o newid i daliadau i bob un o'r 2,402 a gymerodd ran yn yr arolwg a gofynnwyd sut y byddent yn ymateb i bob un yn ei dro. Roedd y sefyllfaoedd fel a ganlyn:

Taliadau'n cynyddu llai nag 20 y cant

Taliadau'n cynyddu mwy nag 20 y cant

Taliadau'n gostwng llai nag 20 y cant

Taliadau'n gostwng mwy nag 20 y cant

Mae Tabl 2.7 (Tabl 4.22) yn crynhoi'r ymatebion. Sylwer bod modd i gyfranogwyr roi mwy nag un ymateb. Hefyd, roedd niferoedd isel mewn rhai categorïau ac nid yw'r canrannau yn y tabl hwn wedi eu crynhoi i gyfanrifau er mwyn casglu'r ymatebion hyn.

**Tabl 2.7 Ymatebion ffermwyr i sefyllfaoedd damcaniaethol o ran newid i'r taliadau**

| | Gostwng mwy nag 20% | Gostwng llai nag 20% | Cynyddu llai nag 20% | Cynyddu mwy nag 20% |
|---|---|---|---|---|
| Busnes fel arfer | 34.0% | 52.2% | 64.3% | 51.4% |
| Gadael ffermio | 20.1% | 7.0% | 1.0% | 0.6% |
| Cynyddu maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 2.2% | 2.1% | 5.0% | 9.0% |
| Lleihau maint y gweithrediadau amaethyddol presennol | 8.5% | 7.6% | 0.8% | 0.8% |
| Prynu offer fferm newydd | 0.2% | 0.3% | 5.0% | 10.2% |
| Ceisio mwy o dir | 0.4% | 0.4% | 4.3% | 9.3% |
| Dwysáu gweithrediadau amaethyddol presennol | 3.2% | 3.4% | 2.4% | 3.7% |
| Codi mwy o adeiladau fferm | 0.2% | 0.2% | 4.0% | 7.8% |
| Lleihau dwyster y gweithrediadau amaethyddol presennol | 5.3% | 5.5% | 0.7% | 0.6% |
| Dechrau gweithgarwch arallgyfeirio newydd | 2.8% | 2.8% | 1.8% | 3.5% |
| Ildio tir | 3.5% | 1.9% | 0.5% | 0.3% |
| Ehangu ar arallgyfeirio presennol | 1.9% | 1.5% | 0.9% | 1.2% |
| Newid fy math o ffermio | 2.0% | 1.5% | 0.5% | 0.6% |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 0.1% | 0.2% | 1.3% | 2.0% |
| Lleihau gweithgareddau arallgyfeirio | 0.8% | 0.8% | 0.1% | 0.1% |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm yn lleol – o fewn 25 milltir | 0.3% | 0.4% | 0.2% | 0.2% |
| Prynu mwy o gyflenwadau a gwasanaethau o'r tu allan i'r ardal leol | 0.0% | 0.1% | 0.3% | 0.3% |
| Gwerthu mwy o gynnyrch a gwasanaethau fferm y tu allan i'r ardal leol | 0.2% | 0.1% | 0.0% | 0.0% |

Cynigiwyd atebion eraill gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd. O ran gostyngiadau, roedd syniadau i leihau costau a dod o hyd i arbedion, lleihau lefelau staffio a gwneud mwy o waith ar y fferm a chymryd cyflogaeth amgen nad yw'n ymwneud â ffermio ymhlith yr atebion 'eraill' hyn. O ran cynnydd i daliadau, roedd yr atebion 'eraill' yn cynnwys syniadau i wella'r busnes o ran da byw ac offer o ansawdd gwell, buddsoddi yn y busnes a'i dyfu, cyflogi mwy o aelodau staff, ad-dalu dyledion a chanolbwyntio ar faterion amgylcheddol a chadwraeth. Roedd y cyfrannau 'Ddim yn gwybod a gwrthodwyd' rhwng 13 y cant ac 16 y cant o'r rhai a gymerodd ran ar gyfer pob un o'r pedair sefyllfa.

Yr hyn sy'n amlwg o Dabl 2.7 yw er bod amrywiaeth o ymatebion i 'sut y gallai ffermydd ymateb i newid yn eu hincwm' (Amcan 2), yr ymateb amlycaf oedd parhau gyda'r 'busnes fel arfer'. Roedd y canfyddiadau yn ymwneud â 'busnes fel arfer' yn datgelu ceidwadaeth gynhenid a ddangosir gan ddymuniad sy'n ymddangos yn gryf ymhlith ffermwyr i barhau gyda busnes fel rheol waeth beth fo goblygiadau ariannol posibl diwygio'r PAC, er ei bod yn ymddangos bod incwm oddi ar y fferm yn ffactor hefyd. Yn yr un modd â rhai o'r ymatebion eraill a nodwyd, gallai ffermwyr newid dwyster eu ffermio, yn dibynnu ar raddfa'r newidiadau posibl i'r Taliad Sengl, ond nid ei natur. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod cwestiynau am ba mor realistig oedd y cynlluniau hyn yng ngoleuni'r data elw a cholled gan ddadansoddiad Incwm Llywodraeth Cymru, a ddangosodd, er enghraifft, bod llai na hanner (46 y cant) o fusnesau fferm wedi gwneud elw, heb gymorthdaliadau a'r incwm o weithgareddau arallgyfeirio. Mae Tabl 2.8 (Tabl 4.31) yn dangos y data elw a cholled ar gyfer y 546 o ffermydd hynny a oedd yn bwriadu parhau gyda 'busnes fel arfer' yn yr holl sefyllfaoedd 'cynnydd' a 'gostyngiad': h.y. dan unrhyw amgylchiadau.

**Tabl 2.8 Elw a Cholled – y ffermydd a ddewisodd Busnes fel Arfer ym mhob sefyllfa**

| Ffermydd a ddewisodd BFA | Elw | Adennill costau | Colled | Ddim yn gwybod | Gwrthod ateb |
|---|---|---|---|---|---|
| 546 | 282 | 99 | 141 | 2 | 22 |
| 100% | 52% | 18% | 26% | 0% | 4% |

Yn debyg i'r ffigurau cyffredinol, tua 50 y cant oedd cyfran y ffermydd a ddewisodd 'busnes fel arfer' [BFA] a wnaeth elw. Er bod cyfrannau mwy o'r is-set Busnes fel Arfer wedi gwneud elw nag ar draws yr arolwg cyfan (52 y cant o'i gymharu â 46 y cant), mae'r ffigur hwn yn dal i awgrymu rhagolwg llai na realistig, yn enwedig pan fo mwy na chwarter (26 y cant) y ffermydd a ddewisodd Busnes fel Arfer wedi gwneud colled. Roedd yn ymddangos bod y geidwadaeth hon yn ymestyn i brynu a gwerthu mewnbynnau a chynnyrch, ac roedd cyfrannau hynod isel yn bwriadu prynu neu werthu yn fwy lleol.

Gadael ffermio oedd yr ail ymateb amlycaf. Roedd cyfran yr ymatebwyr a fyddai'n gadael ffermio yn cynyddu'n sydyn yn ôl maint y gostyngiad posibl i daliadau PAC. O gael eu hwynebu â gostyngiad o lai nag 20 y cant, byddai saith y cant yn gadael ffermio ond byddai ychydig yn fwy nag 20 y cant o ffermwyr yn gadael y diwydiant pe bai gostyngiad o fwy nag 20 y cant. Byddai cyfanswm o 497 o ffermwyr yn gadael ffermio pe bent yn cael eu hwynebu gan un o'r ddwy sefyllfa o ostyngiad i daliadau'r PAC. Roedd y rhain yn gyfran gymharol uchel o

'ymadawyr'. Roedd yr ymatebion i'r sefyllfaoedd newydd, a oedd yn mynd i'r afael ag Amcan Dau o'r prosiect ymchwil yn uniongyrchol - 'Rhagweld sut y gallai aelwydydd fferm ymateb i newid yn eu hincwm', yn cynnwys goblygiadau posibl i bolisi Llywodraeth Cymru o ran cadernid a chynaliadwyedd diwydiant ffermio Cymru.

## 2.4. Amcan Tri - Ystyried sut y gallai newidiadau effeithio ar gymdeithas a'r economi yng nghefn gwlad Cymru

Yn ogystal â mynd i'r afael ag Amcan Dau, roedd cwestiynau yn yr arolwg o aelwydydd fferm yn mynd i'r afael ag elfennau o Amcan Tri - Ystyried sut y gallai newidiadau effeithio ar gymdeithas a'r economi yng nghefn gwlad Cymru. Ymhlith yr agweddau roedd y cwestiynau hyn yn eu cwmpasu roedd: partneriaethau ffermio, llafur fferm ac arferion prynu a gwerthu aelwydydd fferm.

### 2.4.1 Partneriaethau Ffermio

Roedd y mwyafrif helaeth o ffermydd yn cynnwys un aelwyd yn unig yn y bartneriaeth. Mae Tabl 2.9 (tabl 4.43) yn dangos dadansoddiad o'r aelwydydd a oedd yn rhan o'r bartneriaeth, yn ôl maint y fferm.

**Tabl 2.9 Aelwydydd mewn partneriaeth yn ôl maint y fferm**

| | | | Cyfran o faint ffermydd LlC gyda nifer yr aelwydydd 'N' | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer yr aelwydydd mewn partneriaeth 'N'** | **Nifer Cyffredinol** | **Cyfran gyffredinol** | **Mawr iawn** | **Mawr** | **Canolig** | **Bach** | **Bach iawn** |
| **1** | 1895 | 79% | 45% | 46% | 60% | 79% | 89% |
| **2** | 414 | 17% | 35% | 43% | 34% | 18% | 10% |
| **3** | 69 | 3% | 16% | 9% | 6% | 2% | 1% |
| **4** | 12 | 1% | 2% | 1% | 0% | 1% | 0% |
| **5** | 7 | 0% | 2% | 1% | 0% | 0% | 0% |
| **Ddim yn gwybod/Gwrthod ateb** | 5 | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Cyfanswm** | 2,402 | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

Mae'r tabl yn dangos er bod mwyafrif helaeth y partneriaethau ffermio (79 y cant) yn cynnwys un teulu, roedd cyfran sylweddol (17 y cant) a oedd yn cynnwys dau deulu, a chyfran lai o bartneriaethau a oedd yn cynnwys tri, pedwar a phum teulu. Wrth ddadansoddi'r data yn ôl maint y fferm, roedd y mwyafrif helaeth o bartneriaethau ffermydd canolig, bach a bach iawn yn cynnwys un neu ddau deulu, ond roedd gan ffermydd mawr a ffermydd mawr iawn gyfran gymharol fawr o bartneriaethau a oedd yn cynnwys dau neu dri theulu.

### 2.4.2 Llafur Fferm

Gan droi at gyfansoddiad y gweithlu llafur fferm, mae Tablau 2.10 (Tabl 4.44), Tabl 2.11 (Tabl 4.45) a Thabl 2.12 (Tabl 4.46) yn dangos cyfanswm niferoedd a chyfrannau'r gweithwyr llawn amser a gweithwyr rhan amser, sy'n aelod o'r teulu ac nad ydynt yn aelod o'r teulu a gyflogir gan y ffermydd yn yr arolwg, a'u dadansoddi yn ôl maint y fferm. Noder nad oedd gwaith achlysurol yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad.

**Tabl 2.10 Gweithwyr llawn amser a rhan amser**

| Math o weithiwr | Teulu llawn amser | Teulu rhan amser | Llawn Amser Dim Teuluol | Llawn Amser Dim Teuluol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm cyffredinol** | 2,939 | 2,264 | 262 | 466 | 5,931 |
| **Cyfran o gyfanswm y gweithlu** | 50% | 38% | 4% | 8% | 100% |

Mae Tabl 2.11 (Tabl 4.45) yn dangos cyfrannau pob categori o weithwyr a gyflogir ar draws y gwahanol feintiau o ffermydd.

**Tabl 2.11 Cyfrannau'r gweithwyr Llawn amser a gweithwyr Rhan amser sy'n cael eu cyflogi ar draws bob maint fferm**

| Maint fferm | Teulu llawn amser | Teulu rhan amser | Llawn Amser Dim Teuluol | Llawn Amser Dim Teuluol |
|---|---|---|---|---|
| **Mawr iawn** | 4% | 1% | 35% | 9% |
| **Mawr** | 8% | 4% | 14% | 11% |
| **Canolig** | 18% | 11% | 19% | 20% |
| **Bach** | 41% | 35% | 18% | 31% |
| **Bach Iawn** | 29% | 49% | 14% | 29% |
| **Cyfanswm** | 100% | 100% | 100% | 100% |

Mae Tabl 2.12 (Tabl 4.46) yn dangos cyfrannau pob categori o weithiwr a gyflogir gan bob maint fferm.

**Tabl 2.12 Cyfrannau'r gweithwyr Llawn amser a gweithwyr Rhan amser sy'n cael eu cyflogi yn ôl bob maint fferm**

| Maint fferm | Teulu llawn amser | Teulu rhan amser | Llawn Amser Dim Teuluol | Llawn Amser Dim Teuluol | Cyfanswm y gweithwyr ar gyfer pob maint fferm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mawr iawn** | 39% | 12% | 33% | 16% | 277 |
| **Mawr** | 57% | 21% | 9% | 13% | 403 |
| **Canolig** | 58% | 26% | 6% | 10% | 915 |
| **Bach** | 55% | 36% | 2% | 7% | 2,195 |
| **Bach Iawn** | 40% | 52% | 2% | 6% | 2,141 |

Wrth edrych ar dablau 2.1 a 2.12 gyda'i gilydd, gwelwn fod y mwyafrif helaeth o weithwyr (88 y cant) yn aelodau o'r teulu. Wrth edrych ar gyfran pob adran o'r gweithlu, gallwn weld mai'r ffermydd canolig, bach a bach iawn oedd fwyaf tebygol o gyflogi aelodau o'r teulu, a theuluoedd mawr iawn yn cyflogi 44% o weithwyr nad oedd yn aelodau o'r teulu. Mae'r dadansoddiadau hyn yn cael eu cefnogi gan Dabl 2.12, sy'n dangos bod gweithlu ffermydd bach a ffermydd bach iawn yn cynnwys aelodau teuluoedd yn bennaf (mwy na 90 y cant ym mhob achos). Er hyn, roedd gweithluoedd ffermydd mawr iawn, ffermydd mawr a ffermydd canolig yn cynnwys cyfran sylweddol fwy o aelodau'r teulu yn hytrach nag aelodau nad ydynt yn rhan o'r teulu. Mae goblygiadau posibl ar gyfer polisi yma. Pe bai pobl am adael ffermio oherwydd diwygio'r PAC, byddai'n creu effaith sylweddol ar farchnadoedd llafur lleol a theuluol.

### 2.4.3 Patrymau prynu a gwerthu aelwydydd ffermio

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau ymatebwyr yr arolwg ynghylch y cynnyrch a’r gwasanaethau yr oeddent yn eu prynu ar gyfer eu ffermydd. Dengys Tabl 2.13 (Tabl 4.57) faint o gynnyrch a gwasanaethau a brynwyd a’r pellteroedd a’r lleoliadau lle y gwnaethant eu prynu. Dengys y tabl hwn y cyfrannau ar gyfer yr arolwg cyfan a’r cyfrannau yn ôl maint fferm.


**Tabl 2.13** **Prynu mewnbynnau a gwasanaethau yn ôl maint fferm**

| Lleoliad | Cyffredinol | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr ardal leol – o fewn cwmpas 25 milltir** | 82% | 58% | 62% | 70% | 80% | 88% |
| **Rhywle arall yng Nghymru** | 7% | 12% | 13% | 12% | 9% | 5% |
| **Rhywle arall ym Mhrydain** | 10% | 25% | 21% | 17% | 10% | 6% |
| **Tu allan i Brydain** | 1% | 5% | 4% | 1% | 1% | 1% |

Dengys y tabl, ar 82 y cant, fod y mwyafrif helaeth o nwyddau a gwasanaethau a brynwyd gan ffermydd wedi'u prynu o fewn yr ardal leol. Roedd perthynas uniongyrchol rhwng maint y fferm a masnach leol: y lleiaf y fferm, y mwyaf y gyfran yr oedd yn ei phrynu'n lleol. Yn yr un modd, ond i'r gwrthwyneb, roedd yr hyn a brynwyd mewn mannau eraill yng Nghymru a Phrydain ac o'r tu allan i Brydain yn lleihau yn ôl lleihad mewn maint fferm. Prin iawn oedd yr hyn a brynwyd o'r tu allan i Brydain gan ffermydd bach a ffermydd bach iawn (0.59 y cant a 0.43 y cant cyn talgrynnu, yn y drefn honno).

Mae ffigur 2.2 (Ffigur 4.3) yn dangos y canlyniadau hyn ar ffurf graff.

**Ffigur 2.2** **Prynu mewnbynnau a gwasanaethau yn ôl maint fferm**



Er nad oedd arferion ar gyfer prynu mewnbynnau a gwasanaethau mor amlwg ar gyfer mathau o fferm ag yr oedd ar gyfer maint y fferm, roedd yn amlwg bod ffermydd godro yn prynu llai o'r ardal leol a mwy o fannau eraill yng Nghymru, Prydain a'r tu allan i Brydain o gymharu â'r mathau eraill o ffermydd.

Y pwynt amlwg o'r dadansoddiad oedd bod mwyafrif llethol, 82 y cant, o nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r fferm yn cael eu prynu yn yr ardal leol – o fewn radiws o 25 milltir i'r fferm. Dangosir pwynt pwysig arall gan Ffigur 2.2, sy'n dangos y graddiant o ffermydd mwy i ffermydd llai o ran prynu lleol, gyda ffermydd llai yn prynu'n fwy lleol. Yn ogystal, roedd ffermydd llaeth, sy'n dueddol o fod yn fwy, yn prynu cyfran lai o'u nwyddau a'u gwasanaethau yn lleol o gymharu â mathau eraill o ffermydd. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad hwn yn dangos gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwyd. Mae'n bosibl yr oedd gwerth y nwyddau a brynwyd yn lleol gan ffermydd mwy o faint yn fwy na gwerth yr hyn a brynwyd gan ffermydd llai, er bod cyfran y ffermydd llai yn fwy. I'r gwrthwyneb, mae'n bosibl y byddai ffermydd bryniau bach sy'n cynnal defaid a chig eidion, pe byddent yn cael mwy o daliadau PAC, yn gwario mwy yn lleol.

O ran gwerthu, roedd y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddau gwestiwn. Yn gyntaf, gofynnwyd i ymatebwyr i ba fath o farchnad yr oeddent yn gwerthu eu cynnyrch. Yn ail, gofynnwyd iddynt pa gyfran o'u cynnyrch yr oeddent yn ei gwerthu i bob math o farchnad. Dengys Tabl 2.14 (Tabl 4.58) pa gyfran o gyfanswm yr arolwg, a pha gyfrannau o bob maint fferm, a gâi eu gwerthu i bob math o farchnad. Nodir bod sawl fferm yn gwerthu cynnyrch i fwy nag un math o farchnad. Er mwyn cofnodi rhai o'r cyfrannau llai, ni chaiff canrannau eu talgrynnu i rifau cyflawn yn y tabl.

**Tabl 2.14** **Mannau gwerthu cynnyrch fferm yn ôl maint fferm**

| Man gwerthu | Cyffredinol | Mawr iawn | Mawr | Canolig | Bach | Bach iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwmnïau prosesu llaeth** | 8.6% | 81.2% | 55.8% | 23.7% | 2.0% | 1.3% |
| **Marchnadoedd da byw** | 86.9% | 81.2% | 86.4% | 92.8% | 89.7% | 83% |
| **Lladd-dai mawr** | 41.8% | 68.8% | 61.5% | 70.3% | 50.4% | 21.0% |
| **Lladd-dai bach** | 24.4% | 37.5% | 39.4% | 25.4% | 23.3% | 22.8% |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 17.8% | 8.3% | 9.6% | 10.0% | 12.7% | 26.5% |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn rhywle arall** | 6.6% | 6.2% | 1.9% | 4.7% | 4.3% | 10.0% |
| **Siopau, gwestai a bwytai yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 6.3% | 6.2% | 4.8% | 5.7% | 5.1% | 7.8% |
| **Siopau, gwestai a bwytai – yn rhywle arall** | 1.3% | 2.1% | 1.0% | 1.8% | 0.9% | 1.5% |
| **Archfarchnadoedd** | 2.3% | 0% | 6.7% | 5.7% | 2.7% | 0.4% |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru** | 4.2% | 14.6% | 15.4% | 7.2% | 3.8% | 1.8% |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall** | 2.6% | 16.7% | 3.8% | 7.5% | 1.6% | 1.3% |

Dengys Tabl 2.15 (Tabl 4.59) pa gyfran o gyfanswm yr arolwg, a pha gyfran o bob math o fferm, a gâi ei gwerthu i bob math o farchnad.

**Tabl 2.15** **Mannau gwerthu cynnyrch fferm yn ôl math o fferm**

| Marchnad | Cyffredinol | Godro | Defaid | Eidion | Defaid gydag eidion | Arall/cymysg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwmnïau prosesu llaeth** | 8.6% | 84.9% | 0.6% | 1.4% | 0.2% | 4.7% |
| **Marchnadoedd da byw** | 86.9% | 87.6% | 94.2% | 87.9% | 94.4% | 70.1% |
| **Lladd-dai mawr** | 41.8% | 56.5% | 38.6% | 37.6% | 62.8% | 27.4% |
| **Lladd-dai bach** | 24.4% | 36.0% | 20.6% | 24.1% | 23.5% | 26.2% |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 17.8% | 9.1% | 10.6% | 14.8% | 8.3% | 40.7% |
| **Yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn rhywle arall** | 6.6% | 2.7% | 3.0% | 5.5% | 3.4% | 16.2% |
| **Siopau, gwestai a bwytai yn yr ardal leol – o fewn 25 milltir** | 6.3% | 3.8% | 3.5% | 4.6% | 3.7% | 14.5% |
| **Siopau, gwestai a bwytai – yn rhywle arall** | 1.3% | 1.6% | 0.3% | 0.7% | 1.5% | 2.9% |
| **Archfarchnadoedd** | 2.3% | 2.2% | 1.6% | 1.8% | 4.2% | 2.2% |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yng** | 4.2% | 10.2% | 2.3% | 2.5% | 3.7% | 6.3% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nghymru** | | | | | | |
| **Cwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall** | 2.6% | 4.8% | 1.0% | 1.4% | 2.4% | 5.3% |

Gan ystyried y ddau dabl gyda'i gilydd, er mai dim ond naw y cant o gyfanswm yr arolwg a oedd yn gwerthu cynnyrch i gwmnïau prosesu llaeth, roedd 81 y cant o ffermydd mawr yn gwneud hynny, a oedd yn awgrymu mai ffermydd godro oedd nifer o'r ffermydd mawr. Nid yw'n syndod, fel y dengys Tabl 2.15, fod 85 y cant o ffermydd godro yn gwerthu i gwmnïau prosesu llaeth. Defnyddiwyd marchnadoedd da byw bron yn gyffredinol, gydag 87 y cant o ddefnydd drwy'r arolwg cyfan. Ffermydd defaid a ffermydd defaid â chig eidion oedd y mwyaf tebygol o ddefnyddio marchnadoedd da byw, sef 94.2 y cant a 94.4 y cant yn y drefn honno. Ffermydd eraill/cymysg oedd y lleiaf tebygol o ddefnyddio marchnadoedd da byw, er iddynt gofnodi 70 y cant o hyd. Defnyddiwyd lladd-dai mwy, sy'n dueddol o fod ymhellach i ffwrdd, gan gyfrannau uwch o ffermydd na lladd-dai bach, sy'n dueddol o fod yn fwy lleol. Roedd ychydig yn fwy na 17 o bwyntiau canran rhwng y cyfrannau o'r arolwg a oedd yn defnyddio'r ddau fath o ladd-dy.

Roedd llai nag 18 y cant o'r ffermydd yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol, o fewn cwmpas 25 milltir. Ffermydd bach iawn oedd â'r gyfran fwyaf a oedd yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol, sef 27 y cant. Fodd bynnag, yn ôl math o fferm, roedd 41 y cant o ffermydd eraill/cymysg yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol. Prin oedd y ffermydd a oedd yn gwerthu'n uniongyrchol i siopau, gwestai a bwytai lleol. Eto, ffermydd bach iawn gydag wyth y cant a ffermydd eraill/cymysg, gyda 15 y cant, oedd y mwyaf tebygol o wneud hynny. Prin iawn oedd y ffermydd a werthai i siopau, gwestai a bwytai yn rhywle arall. Yn bennaf, ffermydd eraill/cymysg oedd y mwyaf tebygol o wneud hynny. Nid oedd unrhyw ffermydd mawr iawn yn gwerthu cynnyrch i archfarchnadoedd er i ffermydd mawr a chanolig gofnodi'r cyfrannau mwyaf, sef saith y cant a chwech y cant yn y drefn honno.

Roedd y cyfrannau cyffredinol a oedd yn gwerthu cynnyrch i gwmnïau prosesu bwyd yng Nghymru yn isel, sef pedwar y cant. Roedd ffermydd mawr iawn, ffermydd mawr a ffermydd llaeth yn gymharol uchel, sef 15 y cant, 15 y cant a deg y cant yn y drefn honno. Roedd y cyfrannau a werthai i gwmnïau prosesu bwyd yn rhywle arall yn isel yn gyffredinol, er bod ffermydd mawr iawn a ffermydd canolig yn sylweddol uwch na'r ffigur cyffredinol o dri y cant, sef 17 y cant ac wyth y cant yn y drefn honno.

Datgelodd y dadansoddiad gyfrannau'r cynnyrch fferm a oedd yn cael ei werthu i farchnadoedd amrywiol. Drwy'r arolwg cyfan, roedd y gyfran fwyaf o gynnyrch fferm wedi cael ei gwerthu i farchnadoedd fferm, sef 59 y cant o gyfanswm y gwerthiannau. Gan ddadansoddi hyn yn ôl maint fferm, ffermydd canolig, bach a bach iawn a werthodd y cyfrannau mwyaf o'u cynnyrch i farchnadoedd da byw. Cyfrannau cymharol fach a werthwyd gan ffermydd mawr iawn a ffermydd mawr, sy'n awgrymu cysylltiad â'r cyfrannau bach tebyg a werthwyd i farchnadoedd da byw gan ffermydd godro. Gwerthodd ffermydd defaid, ffermydd cig eidion a ffermydd defaid a chig eidion gyfrannau mawr o'u cynnyrch i farchnadoedd da byw. Gwerthodd ffermydd llaeth y mwyafrif helaeth o'u cynnyrch i farchnadoedd prosesu llaeth (63 y cant), marchnadoedd da byw (19 y cant) a lladd-dai (22 y cant). Cymharol fach oedd yr hyn a werthwyd yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol, sef saith y cant o gyfanswm y gwerthiant, a dim ond un a hanner y cant o gyfanswm y gwerthiant a werthwyd i siopau, gwestai a bwytai lleol.

Gellir dadlau, o ystyried pwerau prynu a gwerthu ffermydd gyda'i gilydd, y gallai'r broses o ddiwygio'r PAC gael mwy o effaith i fyny'r gadwyn gyflenwi nag i lawr. Hynny yw, ymddengys fod ffermydd yn gwario mwy yn lleol nag yr oeddent yn ei werthu'n lleol. Ond ni ddylid anwybyddu'r effeithiau lleol i lawr y gadwyn gyflenwi, yn enwedig ar farchnadoedd da byw a lladd-dai. Yn yr un modd, gallai fod effeithiau ehangach ar brosesu llaeth.

Roedd goblygiadau posibl posibl o ran polisi yn dilyn unrhyw newidiadau i daliadau PAC, yn enwedig yr effaith ar gyflenwyr lleol a chontractwyr i'r sector amaethyddol ac ar farchnadoedd da byw, lladd-dai a gwerthiannau uniongyrchol i'r cyhoedd yn lleol a manwerthwyr lleol, a fyddai'n cael effaith ganlyniadol ar yr economi leol.

Roedd y cyfweliadau dilynol manwl a drafodwyd ac a ddadansoddwyd yn yr Adroddiad ar Gamau Tri a Phedwar yn ceisio rhoi cig ar y dadansoddiadau hyn gan ddefnyddio symiau ariannol. Unwaith eto, lle mae'r ffigurau a'r tablau wedi cael eu copïo o'r adroddiad blaenorol, dangosir y dynodiadau gwreiddiol mewn cromfachau.

### 2.4.4 Mapio ymddygiad prynu a gwerthu cartrefi ffermio

Roedd y 30 cyfweliad wedi eu lled-strwythuro a chawsant eu recordio a'u trawsgrifio. Yn ystod y cyfweliad, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ffermwyr a ymatebodd am brynu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y fferm, gan gynnwys ble roeddent yn prynu a gwerthu a faint roeddent yn ei wario a'i gasglu, a pha effaith y byddai newidiadau i gymhorthdal y PAC yn ei chael ar y patrymau prynu a gwerthu hyn. Nodwch y darparwyd data ariannol anghyflawn gan chwech o'r 30 a gyfwelwyd. O ganlyniad, defnyddiwyd data ar gyfer y 24 o ffermydd a oedd yn weddill yn y dadansoddiad.

Gan ddefnyddio'r data a ddarparwyd gan y cwestiynau hyn, paratowyd tri math o gynrychiolaeth graffigol.

1. Ar gyfer pob un o'r tair ardal astudio, lluniwyd diagram 'rhosyn' yn dangos lle roedd y ffermwyr y cyfwelwyd â hwy yn gwerthu eu nwyddau a'u gwasanaethau.
2. Ar gyfer pob un o'r 24 fferm, diagram 'rhosyn' yn dangos ble'r oeddent yn prynu mewnbynnau a gwasanaethau fferm.
3. Plotiwyd pob un o'r 24 fferm ar graff ag echelau 'gwariant lleol' a dibyniaeth ar y PAC/Taliad Sengl.


Dangosir y graff olaf isod yn Ffigur 2.3 (Ffigur 4.1). Fe'i lluniwyd trwy gyfuno data o'r arolwg a'r cyfweliadau trylwyr.

(a) Ar yr echelin *x* neu lorweddol caiff y gwariant lleol ar fewnbynnau fferm ar gyfer pob un o'r 30 o ffermydd ei blotio. Casglwyd y data hyn o'r cyfweliadau manwl, pan ofynnwyd i'r sawl a holwyd nodi eu gwariant lleol - defnyddiwyd y symiau i lenwi'r gridiau a baratowyd ymlaen llaw y soniwyd amdanynt uchod. Gwariant canolrif (h.y. gwerth canol y gyfres) y 30 a gyfwelwyd yw tarddiad yr echel *x*, sef £33,500 y flwyddyn. Ystyrir bod gan ffermydd i'r dde o'r ffigur hwn wariant 'uwch' a bod gan y ffermydd i'r chwith o'r lleolbwynt wariant 'is'.

(b) Ar yr echelin *y* neu fertigol caiff cyfran yr incwm ar gyfer yr aelwyd ffermio a gynrychiolir gan y Taliad Sengl ar gyfer pob un o'r 30 o ffermydd ei phlotio. Daeth y data hyn o'r arolwg. Unwaith eto, lleolbwynt echelin *y* yw'r gwerth canolrifol: lle yr oedd y Taliad Sengl yn cynrychioli 20 y cant o incwm yr aelwyd ffermio. Ystyriwyd bod gan ffermydd a oedd uwchben y ffigur hwn 'annibyniaeth uwch' neu 'ddibyniaeth is ar y Taliad Sengl' a bod gan ffermydd o dan y lleolbwynt 'ddibyniaeth uwch ar y Taliad Sengl'

Mae Adran 4.3 yr adroddiad ar Gamau 3, 4 a 5 yn cynnwys dadansoddiad deongliadol o batrymau prynu a gwerthu'r 24 o ffermydd hyn, eu hymatebion i'r newidiadau a ragwelir i'r Taliad Sengl, eu perthynas ag economïau lleol, ac mae'n dod i gasgliad am ba mor gadarn ac agored i niwed yw pob fferm. Mae'n cynnwys diagramau rhosyn prynu a gwerthu, ynghyd ag allweddi. Rhoddir crynodeb o'r dadansoddiad hwn isod.

**Ffigur 2.3 (Ffig 4.1.) Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl**



**Tabl 2.16(a)** **Nodweddion allweddol y ffermydd yn y Chwarter Effaith Isel/Dibyniaeth Isel ar y Taliad Sengl yn Ffigur 2.3 (Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl)**

| | Maint | Math | Deiliadaeth C1 | % o Gynhyrchu | % o'r Taliad Sengl | % o AmaethAmg | % o Arallgyfeirio | % o Rent | % o Oddi ar y | TROSIANT C27 | Heb gymhorthdal | INCWM C30 HH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CC1 | Bl | Defaid ac Eidion | Perchnogaet | 9 | 0.5 | 0.5 | 0 | 0 | 90 | Llai na £25k | Mantoli | £31k-51k |
| CC2 | Bl | Defaid | Perchnogaet | 15 | 15 | 15 | 0 | 20 | 35 | Llai na £25k | Mantoli | Llai na £10k |
| CC3 | B | Defaid | Rhent | 30 | 20 | 0 | 50 | 0 | 0 | £200k-£249k | Elw | Gwrthod ateb |
| DC2 | Bl | Eidion | Perchnogaet | 10 | 5 | 5 | 0 | 0 | 80 | Gwrthod ateb | Colled | £15.5k - 20k |
| DC5 | B | Arall/Cymysg | Perchnogaet | 20 | 5 | 0 | 0 | 5 | 70 | Llai na £25k | Colled | £21k - 30k |
| GC5 | B | Defaid ac Eidion | Perchnogaet | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 90 | Llai na £25k | Elw | £21k - 30k |

### Crynodeb o'r chwarter Effaith Isel/Dibyniaeth Isel

Yn ôl Tabl 2.16(a), roedd pob un o'r ffermydd yn y chwarter hwn naill ai'n fach neu'n fach iawn ac roeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar ddefaid ac eidion. Prin yr oedd fferm CC3 yn gymwys fel fferm 'â dibyniaeth isel ar y Taliad Sengl', gyda'r Taliad Sengl yn cyfateb i 20 y cant o incwm y cartref. Yn yr un modd, roedd gan fferm CC2 gyfran gymharol uchel o Daliad Sengl, sef 15 y cant o incwm. Roedd gan y pedair fferm a oedd yn weddill yn y chwarter ddibyniaeth isel iawn ar y Taliad Sengl. Yn unigol, nid oedd gan un o'r ffermydd hyn effaith fawr ar yr economi leol. Fodd bynnag, pe bai nifer o ffermydd bach wedi'u lleoli yn yr un ardal a phe bai newidiadau yn y Taliad Sengl yn effeithio ar bob un ohonynt yn yr un modd, gallai'r effaith gronnol fod yn sylweddol.

**Tabl 2.16(b)** **Nodweddion allweddol y ffermydd yn Chwarter Effaith Uchel/Dibyniaeth Isel ar y Taliad Sengl**

**Ffigur 2.3 (Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl)**

| | Maint | Math | Deiliadaeth C1 | % o Gynhyrchu | % o'r Taliad Sengl | % o AmaethAm g | % o Arallgyfeiri o | % o Rent | % o Oddi ar y | TROSIANT C27 | Heb gymhorthda l | INCWM C30 HH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GC2 | B | Defaid | Rhent | 88 | 5 | 5 | 0 | 0 | 2 | £68k - £99k | Mantoli | £15.5k - 20k |
| DC6 | MI | Godro | Cymysgedd | 40 | 10 | 0 | 0 | 0 | 50 | £500k neu fwy | Elw | £52k-77k |
| DC7 | M | Godro | Perchnogaet | 77 | 10 | 1 | 5 | 0 | 7 | £200k-£249k | Elw | £15.5k - 20k |
| DC9 | Can | Godro | Rhent | 90 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | £68k - £99k | Elw | Llai na £10k |

**Crynodeb o'r chwarter Effaith Uchel/Dibyniaeth Isel**

Ac eithrio fferm GC2, fferm ddefaid a oedd yn fferm ar wahân i ryw raddau, roedd y ffermydd yn y chwarter hwn yn ffermydd llaeth yn ne-orllewin Cymru. Er bod ganddynt ddibyniaeth isel ar y Taliad Sengl yn fethodolegol, dadleuodd rhai ffermwyr ei fod yn bwysig iawn i'w busnes. Fel gwarwyr cymharol uchel yn lleol, roedd y mathau o ffermydd yn y cwadrant hwn yn cael effaith uchel yn unigol ar yr economi leol. Lle y mae grwpiau mawr o'r mathau hyn o ffermydd, megis yn ne-orllewin Cymru, gallai unrhyw newidiadau yn nhaliadau'r Taliad Sengl gael effaith sylweddol o bosibl ar economïau lleol.

**Tabl 2.16(c)** **Nodweddion allweddol y ffermydd yn Chwarter Effaith Uchel/Dibyniaeth Uchel ar y Taliad Sengl yn Ffigur 2.3 (Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl)**

| | Maint | Math | Deiliadaeth C1 | % o Gynhyrchu | % o'r Taliad Sengl | % o AmaethAm g | % o Arallgyfeiri o | % o Rent | % o Oddi ar y | TROSIANT C27 | Heb gymhorthda l | INCWM C30 HH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CC4 | Can | **Defaid ac Eidion** | Cymysgedd | 25 | 50 | 0 | 0 | 0 | 25 | £100,000 - | **Elw** | £31k – 51k |
| **CC5** | **Can** | **Defaid ac Eidion** | **Perchnogaet** | **60** | **40** | **0** | **0** | **0** | **0** | **£100k - £149k** | **Colled** | **£52k-77k** |
| **GC6** | **M** | **Defaid ac Eidion** | **Perchnogaet** | **20** | **70** | **10** | **0** | **0** | **0** | **£200k-£249k** | **Elw** | **£78k neu fwy** |
| **GC7** | **Can** | **Eidion** | **Perchnogaet** | **20** | **60** | **10** | **10** | **0** | **0** | **£25k - £67k** | **Elw** | **Ddim yn** |
| **DC3** | **Can** | **Defaid ac Eidion** | **Cymysgedd** | **40** | **40** | **5** | **7.5** | **0** | **7.5** | **£68k - £99k** | **Colled** | **£21k - 30k** |
| **DC4** | **Can** | **Godro** | **Perchnogaet** | **60** | **20** | **0** | **20** | **0** | **0** | **£100k - £149k** | **Elw** | **£10k - £15.5k** |
| **DC8** | **MI** | **Godro** | **Cymysgedd** | **30** | **20** | **0** | **50** | **0** | **0** | **£500k neu fwy** | **Elw** | **£78k neu fwy** |
| **DC10** | **B** | **Eidion** | **Perchnogaet** | **40** | **40** | **0** | **15** | **5** | **0** | **£100k - £149k** | **Colled** | **£31k-51k** |

### Crynodeb o'r cwadrant Effaith Uchel/Dibyniaeth Uchel

Mae'r cyfuniad o effaith uchel a dibyniaeth uchel ar y Taliad Sengl yn gwneud y mathau hyn o ffermydd yn hynod arwyddocaol i economïau lleol o bosibl. Yn wir, mae'r ffaith bod ganddynt effaith uchel a dibyniaeth uchel yn eu gwneud hyd yn oed yn fwy arwyddocaol na ffermydd yn y cwadrant effaith uchel a llai dibynnol. Er bod rhai ffermwyr yn y cwadrant hwn yn dadlau bod y Taliad Sengl yn gymharol ddi-nod o'r safbwynt ei fod yn cynrychioli cyfran fach o drosiant y busnes, roedd y ffermydd hyn yn fusnesau mawr a byddai eu heffaith ar economïau lleol yn gyfatebol fawr. Awgrymodd ffermydd eraill yn y cwadrant bod y Taliad Sengl yn bwysig iawn i'w busnes. Fel gwarwyr cymharol uchel yn lleol, roedd y mathau o ffermydd yn y cwadrant hwn yn cael effaith uchel yn unigol ar yr economi leol. Unwaith eto, roedd yn ymddangos bod grŵp o'r mathau o fferm effaith uchel a dibyniaeth uchel hyn yn ne-orllewin Cymru. Yn sgil hynny, gallai effeithiau cronnus fod yn arwyddocaol o bosibl.

**Tabl 2.16(d) Priodweddau allweddol y ffermydd yng Nghwadrant Effaith Isel/Dibyniaeth Uchel ar y Taliad Sengl**

**Ffigur 2.3 (Mapio Gwario Lleol a'r Taliad Sengl)**

| | Maint | Math | Deiliadaeth C1 | % o Gynhyrchu | % o'r Taliad Sengl | % o AmaethAmg | % o Arallgyfeirio | % o Rent | % o Oddi ar y | TROSIANT C27 | Heb gymhorthdal | INCWM C30 HH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MW9 | B | Defaid ac Eidion | Rhent | 30 | 28 | 10 | 0 | 0 | 32 | £25k - £67k | Elw | £31k – 51k |
| NW1 | B | Defaid ac Eidion | Rhent | 25 | 25 | 45 | 5 | 0 | 0 | £68k - £99k | Colled | £15.5k - 20k |
| NW3 | BI | Eidion | Perchnogaet | 34 | 33 | 0 | 33 | 0 | 0 | Ddim yn gwybod | Mantoli | Ddim yn |
| NW4 | Can | Defaid ac Eidion | Cymysgedd | 5 | 40 | 5 | 0 | 0 | 50 | £25k - £67k | Colled | £15.5k - 20k |
| NW9 | M | Defaid ac Eidion | Rhent | 57 | 40 | 3 | 0 | 0 | 0 | £150k - £199k | Elw | Ddim yn |
| GC11 | BI | Defaid | Perchnogaet | 15 | 30 | 30 | 0 | 0 | 25 | Llai na £25k | Colled | £21k - 30k |

**Crynodeb o'r cwadrant Effaith Isel /Dibyniaeth Uchel**

Ac eithrio fferm CC9, roedd y ffermydd yn y cwadrant hwn yng ngogledd-orllewin Cymru. Roeddent oll yn ffermydd mynydd defaid neu ddefaid ac eidion ac yn tueddu i fod yn fach neu'n fach iawn. Fel ffermydd bach, nid oedd gwerth eu mewnbynnau fferm yn fawr. Unwaith eto, fodd bynnag, ceir effeithiau cronnus posibl ar yr economi leol gan grwpiau o ffermydd o'r un math.

**Crynodeb Cyffredinol o'r Dadansoddiad Deongliadol**

Mae Tabl 2.17 yn crynhoi'r effeithiau posibl ar wario lleol, gan gymryd pob cwadrant o Ffig 2.3 yn ei dro:

**Tabl 2.17 Effeithiau Posibl ar wario lleol**

| **Cwadrant** | **Nodweddion** | **Effaith bosibl ar wario lleol** | **Yr ardal yr effeithir arni fwyaf** |
|---|---|---|---|
| De uchaf | Llai o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl/Gwario uwch | Parhau ar yr un gyfradd | Y de-orllewin |
| Chwith uchaf | Llai o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl/Gwario is | Parhau ar yr un gyfradd ond maent yn gwario llai | Y canolbarth |
| Chwith isaf | Mwy o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl/Gwario is | Effaith ond maent yn gwario llai | Y gogledd-orllewin |
| De isaf | Mwy o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl/Gwario uwch | Effaith fawr bosibl wrth iddynt wario mwy | Y gogledd-orllewin<br>Y de-orllewin<br>Y canolbarth |

Yn y dadansoddiad llawn yn yr adroddiad ar Gamau 3, 4 a 5, mae'r dadansoddiad o batrymau prynu a gwerthu yn cynnwys pedair elfen. Yn gyntaf, mae Ffig 2.3 (4.1) yn blot neu'n gynrychiolaeth anofodol. Mae'r ffigur yn dangos cwadrantau: effaith economaidd isel a dibyniaeth isel ar y Taliad Sengl; effaith uchel a dibyniaeth isel ar y Taliad Sengl; effaith uchel a dibyniaeth uchel ar y Taliad Sengl; ac effaith isel a dibyniaeth uchel ar y Taliad Sengl. Tynnir pob fferm unigol yn y tair ardal ddaearyddol o'i lleoliad gofodol ac fe'i rhoddir yn un o'r cwadrantau yn ôl ei dibyniaeth ar y Taliad Sengl ac effaith economaidd bosibl y fferm ar yr ardal leol. Yn ail, ceir diagramau rhosyn ar gyfer pob fferm yn dangos faint sy'n cael ei wario ar fewnbynnau fferm a phellter ffynonellau'r mewnbynnau hyn oddi wrth y fferm. Yn drydydd, mae testun sy'n gysylltiedig â phob fferm yn dehongli ei lleoliad yng nghwadrantau Ffig 2.3 (4.1). Caiff y testunau hyn eu llunio o ddata holiaduron a data chyfweliadau ac arsylwadau. Yn olaf, gan ddychwelyd i ddull gofodol, ceir diagramau rhosyn ar gyfer pob un o'r tair ardal ddaearyddol (de-orllewin Cymru, canolbarth Cymru a gogledd-orllewin Cymru) yn dangos maint incymau ac o ble roedd incymau'r ffermydd yn yr ardaloedd hyn yn deillio.

Mae'r dadansoddiad yn cynnig gwybodaeth am sut y mae'r ffermydd a'r cartrefi hyn yn gweithredu. Er enghraifft, pwysigrwydd cymharol y ffynonellau sy'n ffurfio incwm y cartref; sut fyddai ffermwyr yn ymateb i'r newidiadau posibl a ragwelir i'r Taliad Sengl; eu barn ar arallgyfeirio, ynni amgen a chynlluniau amaeth-amgylcheddol; eu perthynas â'r economi leol; eu cynlluniau olyniaeth; taflwybr y fferm; a'u cynlluniau mwy hirdymor. Daethpwyd i gasgliad am gadernid y cartref ffermio a pha mor agored yw i niwed o'r data hwn.

O ran effaith economaidd, tra'n nodi'r cafeat bod hwn yn sampl cymharol fach, mae'r dadansoddiad yn dangos bod tueddiad i fathau o ffermydd ffurfio grwpiau: yn enwedig ffermydd godro yn y de-orllewin a ffermydd defaid ac eidion mynydd llai yng ngogledd-orllewin Cymru. Felly, un goblygiad pwysig yw er y gallai rhai ffermydd ar eu pen eu hunain gael effaith isel ar yr economi leol, gallai'r effaith fod yn sylweddol o'u hystyried gyda'i gilydd fel grŵp. Lle ceir grwpiau o ffermydd sy'n warwyr mwy yn unigol, ynghyd â rhai sydd â dibyniaeth uchel ar y Taliad Sengl, fel y sector odro sydd flaenaf yn y de-orllewin, gallai effeithiau newidiadau i'r Taliad Sengl gael eu chwyddo'n sylweddol.

### 2.4.5 Data ansoddol gan ffermwyr

Roedd elfen olaf y dadansoddiad i fynd i'r afael ag Amcan Tri – Ystyried sut y gallai newidiadau effeithio ar gymdeithas a'r economi yng Nghymru wledig, wedi ei chyfansoddi o'r data ansoddol o'r cyfweliadau trylwyr.

Gan ystyried yr economi yn gyntaf, mae rhyngweithio cartrefi ffermio gyda busnesau eraill a chyda phobl leol, o ran prynu a gwerthu, yn dibynnu o reidrwydd ar gyflwr ac iechyd busnesau fferm. Yn fras, roedd dwy farn ar sut y gallai diwygio'r PAC effeithio ar fusnesau fferm. Y gyntaf oedd bod y taliad sengl yn gyfran rhy fach o incwm i newidiadau gael effaith sylweddol neu byddent yn effeithio ar elw yn unig. Ac, yn ail, roedd y farn bod y taliad sengl yn gydran hanfodol o incwm yr aelwyd ffermio. O'r herwydd, byddai unrhyw newidiadau i'r Taliad Sengl yn effeithio ar gynhyrchiant ffermydd, ac ar brynu a gwerthu. Fodd bynnag, i'r mwyafrif llethol o ffermwyr, byddai prynu a gwerthu yn parhau i gael eu gwneud yn lleol, gan mai un o'r pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad ansoddol o'r cyfweliadau trylwyr oedd y dystiolaeth o ba mor ymsefydledig oedd ffermwyr yn yr economi leol. Nid oherwydd bod prisiau yn is oedd y rhesymau a roddwyd am gefnogi busnesau lleol; mae'n debyg eu bod yn aml yn uwch. Yn hytrach, roedd y ffermwyr yn dewis prynu yn lleol am resymau eraill, yn bennaf dymuniad amlwg i gefnogi'r economi leol am ei bod yn cael ei gweld fel rhan annatod o'r gymuned leol. Dadleuwyd ei bod yn bwysig defnyddio cyflenwyr lleol, ar gyfer ansawdd y gwasanaeth a'r cynhyrchion, yn foesegol, ac ar gyfer ymrwymiad i'r gymuned leol. Fodd bynnag, cafwyd sylwadau bod ffermydd teuluol bach yn cynnig mwy o gefnogaeth i'r economi leol na ffermydd mwy, fel ffermydd godro, gan fod yr olaf yn tueddu i brynu mewn sympiau gan gyflenwyr nad ydynt yn lleol.

O ran gostyngiadau i'r Taliad Sengl, roedd dadleuon y gellid ymdopi ag unrhyw ostyngiadau i gymorthdaliadau yn ystod y bum mlynedd gyntaf dim ond trwy leihau costau cyffredinol drwyddi draw: e.e. llai o waith cynnal a chadw a llai o beiriannau newydd. Ond ar ôl pum mlynedd, byddai'n rhaid i ffermwyr ystyried eu sefyllfa yn fwy gofalus, gan nad oedd ffermio yn rhywbeth y gallai rhywun neidio i mewn ac allan ohono yn gyflym. Roedd yn cymryd amser i adeiladu stoc ac wrth i lefelau stoc ostwng byddai llai i'w werthu. Dadleuodd rhai ffermwyr oherwydd bod y taliad sengl yn cyfateb i gyfran gymharol fach o incwm, prin fyddai effaith colledion neu enillion. Fodd bynnag, dadleuodd ffermwyr eraill y byddai hyd yn oed arbedion bach yn cael eu trosglwyddo ymlaen i fusnesau lleol.

Yn achos cynnydd yn y taliad sengl, awgrymwyd y byddai'n rhaid ei ddefnyddio i dalu am gynnydd dilynol ym mhrisiau ŵyn, bwyd anifeiliaid, tanwydd a thrydan. O ganlyniad, byddai cynnydd mewn cymhorthdal yn cael ei ddosbarthu ar draws y cyflenwyr presennol.

O ran ffermio a'r gymdeithas a'r gymuned leol, roedd llawer o'r dadleuon yn cysylltu ffermio â chymunedau lleol wedi eu seilio ar yr economi leol; mai mantais economaidd oedd prif fantais y fferm i'r gymuned. Gwelwyd bod ffermio yn economaidd bwysig i ardaloedd gwledig: roedd yn darparu cyflogaeth sy'n ymddangos yn gyflog isel ond sydd hefyd â chostau personol isel, fel teithio i'r gwaith.

Roedd dadleuon cymdeithasol nad oeddent yn economaidd wedi eu seilio ar dybiaethau bod ffermio yn angor ar gyfer diwylliant Cymreig; felly dylid ei gefnogi gan ei fod yn darparu swyddi i bobl leol yng Nghymru fyw a gweithio yng Nghymru wledig. Yn wir, o gofio bod llawer o ffermydd bach lle'r oedd yn rhaid i deuluoedd chwilio am waith arall, dadleuwyd bod y ffermydd hyn yn cadw pobl yn yr ardal a bod ffermio yn dal i fod yn lud diwylliannol pwysig.

Dywedodd rhai o'r ffermwyr eraill a gyfwelwyd bod cymuned o ffermwyr yn hytrach na chymuned ffermio a bod gan ffermwyr o wahanol wledydd fwy yn gyffredin na ffermwyr a phobl nad ydynt yn ffermwyr yn yr un wlad. Dadleuwyd bod y gwahaniaeth diwylliannol hwn yn dod yn fwy amlwg yn yr ardal leol wrth i fwy o bobl drefol brynu cartrefi yn y wlad a thyfu fel grŵp cymdeithasol fel mai nhw oedd yn flaenllaw yn yr ardal. Gan ymestyn y ddadl hon, roedd rhai a gyfwelwyd yn awgrymu bod y cysylltiad rhwng ffermio, o edrych ar yr ochr orau, yn cael ei ymestyn i'r eithaf, ac o edrych ar yr ochr waethaf, wedi ei dorri eisoes. Rhoddwyd amrywiaeth o resymau am golli'r ymdeimlad hwn o gymuned. Roedd y sylw bod ffermydd wedi cael eu prynu a'u meddiannu gan bobl nad ydynt yn ffermwyr. Awgrymodd eraill y byddai'r strwythur cymunedol yn parhau i newid yn ystod y degawd nesaf wrth i ffermwyr heneiddio ac nad oedd eu plant yn cymryd y ffermydd drosodd. Dadl arall a wnaed oedd er bod y diwylliant ffermio yn parhau, roedd pethau wedi newid er gwaeth ac nad oedd landlordiaid absennol sy'n rhentu tir allan yn helpu ysbryd cymunedol. Rhoddwyd bai hefyd ar y ffaith bod angen i lawer o ffermwyr gael gwaith oddi ar y fferm i ategu incymau am, o edrych ar yr ochr orau, chwalfa rannol mewn diwylliant lleol. Felly roedd y rhain yn farn amrywiol ar ffermio a'r gymuned leol. Er nad oedd patrwm amlwg, er enghraifft o ran daearyddiaeth na math a maint fferm o ran y farn hon, roedd ymdeimlad sylfaenol bod cysylltiadau'r gymuned ffermio draddodiadol o dan straen.

O'r Adroddiad ar Gamau Un a Dau a'r Adroddiad ar Gamau Tri a Phedwar, roedd tystiolaeth felly a oedd yn mynd i'r afael ag Amcan Tri – Ystyried sut y gallai newidiadau effeithio ar gymdeithas a'r economi yng nghefn gwlad Cymru. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu y byddai newidiadau posibl oherwydd diwygio'r PAC yn cael rhywfaint o effaith ar yr economi leol ac ehangach, yn enwedig y diwydiant cefnogi ffermydd. Hefyd, gallai unrhyw ostyngiad i'r Taliad Sengl waethygu'r rhwyg tybiedig a chynyddol rhwng y byd ffermio a chymdeithas wledig sy'n newid.

## Adran 3 Themâu sy'n dod i'r amlwg

Yn ogystal â mynd i'r afael â nodau ac amcanion y prosiect, daeth amrywiaeth o themâu trawsbynciol i'r amlwg o'r gwaith ymchwil. Mae'r isadrannau canlynol yn nodi'r themâu hyn, ac yn eu trafod nhw a'u goblygiadau yn gryno. Nodwch ei bod yn ddefnyddiol crynhoi'r themâu hyn er i rai ohonynt ddod i'r amlwg yn ystod y broses o fynd i'r afael â nodau ac amcanion y prosiect, ac y'u trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad.

### 3.1 Agweddau at y Taliad Sengl

Fel y trafodwyd yn gynharach, roedd gwahanol safbwyntiau ar y Taliad Sengl. I rai, roedd yn rhy fach fel cyfran o incwm i unrhyw newidiadau gael effaith. Awgrymodd rhai o'r ffermwyr hyn y byddai unrhyw newidiadau i'r Taliad Sengl yn effeithio ar elw yn unig. Dadleuodd eraill bod y Taliad Sengl yn hanfodol i'r cartref ffermio. Fel y cyfryw, byddai unrhyw newidiadau yn effeithio ar arfer ffermio ac yn cael effeithiau ar yr economi leol.

Roedd gan rai ffermwyr safbwyntiau cryf hefyd ar syniad y Taliad Sengl yn ei hanfod. Er enghraifft, dadleuwyd ei fod yn hybu 'system mewnbwn uchel, cost uchel'. Roedd eraill yn achwyn am system a oedd yn caniatáu i'r rhai nad ydynt yn ffermwyr a ffermwyr sy'n rhentu eu tir allan hawlio'r Taliad Sengl, ac a oedd yn caniatáu i daliadau'r Taliad Sengl gael eu cyfalafu'n werthoedd tir. Dadleuwyd ganddynt y dylai derbyn y Taliad Sengl fod yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd, ynni neu wasanaethau amgylcheddol.

## 3.2 Ymwybyddiaeth o ddiwygio'r PAC

Datgelodd data'r arolygiad a data'r cyfweliadau bod ymwybyddiaeth o ddiwygio posibl y PAC yn isel. Roedd hyn yn wir hyd yn oed ymhlith y ffermwyr hynny a oedd yn derbyn y Taliad Sengl . Roedd hyn yn oed y rhai a oedd yn ymwybodol o'r diwygiadau posibl i'r PAC yn dueddol o beidio â meddu ar wybodaeth am fanylion penodol fel y mesurau gwyrddu, capio taliadau a'r pwyslais ar ffermwyr ifanc, ac roedd llai na chwarter poblogaeth gyfan yr arolygiad yn ymwybodol o Flwyddyn Gyfeirio 2014-15, a phrin oedd y rhai a oedd wedi gwneud cynlluniau. O ystyried pwysigrwydd y Taliad Sengl fel ffynhonnell incwm i lawer o ffermwyr, roedd hyn yn awgrymu diffyg ymwybyddiaeth fusnes, apathi a rhywfaint o dynghediaeth.

## 3.3 Y disgwyliad o newidiadau incwm

Dynododd data'r arolwg lefelau gormodol o besimistiaeth ynglŷn â diwygiadau posibl i'r PAC a newidiadau dilynol i'r Taliad Sengl. Yn groes i Ddadansoddiad Incwm Llywodraeth Cymru, a ragwelodd y byddai 35 y cant o'r holl ffermydd yn dioddef gostyngiadau dan gyfundrefn taliadau yn seiliedig ar arwynebedd, roedd 60 y cant o ffermwyr yn disgwyl gostyngiad i'r Taliad Sengl, a dim ond 10 y cant oedd yn disgwyl cynnydd. Roedd pesimistiaeth yn ymestyn i ffermydd mynydd llai (o safbwynt economaidd), y rhagwelodd Dadansoddiad Incwm Llywodraeth Cymru fyddai, yn gyffredinol, yn derbyn cynnydd i'r Taliad Sengl. Roedd ffermydd mwy, yn enwedig ffermydd godro, yn tueddu i fod yn fwy realistig o ran eu disgwyliadau.

O'u hystyried gyda'i gilydd, roedd y canfyddiadau yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ddiwygio'r PAC a'r disgwyliad o newidiadau i incwm yn awgrymu bod angen gwell cyfathrebu a gwybodaeth.

## 3.4 Ymatebion i newidiadau posibl i incwm y Taliad Sengl

'Busnes fel arfer' oedd y prif ymateb i newidiadau posibl i'r Taliad Sengl. Gan gyd-fynd â'r ymrwymiad pendant i barhau â 'busnes fel arfer' yr ymatebwyr i'r arolwg, yn eu blaenoriaethau ar gyfer rheoli'r fferm yn y dyfodol, yn rhoi pwyslais mawr ar gynhyrchu bwyd, yn enwedig ffermydd godro a ffermydd mwy. Ac er bod ffermydd godro a ffermydd mwy hefyd yn tueddu i roi mwy o bwyslais ar ddefnydd 'amgen' o dir na mathau eraill o ffermydd, nid oedd mwyafrif y ffermwyr yn rhagweld unrhyw newidiadau sylweddol yn ystod y pump i ddeng mlynedd nesaf. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn yr adroddiadau, o Ddadansoddiad Incwm Llywodraeth Cymru, dim ond 46 y cant o fusnesau fferm wnaeth elw heb gymorthdaliadau ac incwm o weithgareddau arallgyfeirio, a gwnaeth 26 y cant o'r busnesau fferm a ddewisodd 'Busnes fel arfer' golled. Mae'n rhaid bod y dadansoddiadau hyn yn cwestiynu hyfywedd llawer o ffermydd o ran gallu parhau gyda 'Busnes fel arfer', pe bai eu Taliad Sengl yn cael ei ostwng.

Gadael ffermio oedd yr ail ymateb mwyaf cyffredin i ostyngiad i'r Taliad Sengl. Y pwyntiau amlwg a ddeilliodd o'r thema hon oedd mai ffermwyr yn y grŵp oedran 45-54 oedd fwyaf tebygol o adael a bod y ffermydd hynny nad oedd ganddynt gynlluniau olyniaeth yn fwy tebygol o adael ffermio. Yn ogystal â hyn, nid oedd gan 40 y cant o ffermydd gynlluniau olyniaeth. Trafodir y goblygiadau yma i gynaliadwyedd ffermydd teuluol isod dan y themâu 'Cadernid a Bod yn Agored i Niwed'.

### 3.5 Olyniaeth, Newydd Ddyfodiaid a Deiliadaeth

Ystyriwyd bod materion Olyniaeth, Newydd Ddyfodiaid a Deiliadaeth wedi eu cysylltu'n agos o ran cynnal ffermydd teuluol. Roedd y mwyafrif llethol o ffermydd, 73 y cant o'r arolwg, yn eiddo i deuluoedd. Ffermydd mawr iawn oedd lleiaf tebygol o fod yn eiddo i deuluoedd. Yn wir, hwn oedd yr unig gategori lle'r oedd perchnogaeth deuluol yn disgyn dan 50 y cant (41 y cant). Roedd cyfran y ffermydd sy'n cael eu rhentu yn weddol gyson ar draws maint y ffermydd a'r mathau o ffermydd: roedd yn amrywio rhwng chwech ac 11 y cant.

Datgelwyd rhai problemau gyda ffermydd rhent yn y cyfweliadau trylwyr. Dywedodd yr ymatebwyr nad ydynt wedi gallu parhau â chynlluniau ar gyfer arallgyfeirio a phrosiectau ynni amgen oherwydd problemau gyda lesoedd a gwrthwynebiad gan landlordiaid, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ac roedd ffermwyr a oedd wedi eu geni a'u magu yn yr ardaloedd hyn, a oedd eisiau parhau i ffermio, ac a oedd eisiau cenedlaethau olynol i barhau i ffermio yn ei chael yn anodd gwneud cynlluniau ar gyfer ffermydd rhent. Fodd bynnag, fel y trafodwyd uchod, nid oedd gan 40 y cant o ffermwyr gynlluniau olyniaeth a chafwyd dadleuon bod olyniaeth weithiau'n arwain at unedau fferm bach, a oedd yn rhy fach i fod yn hyfyw.

Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd bod prinder tir ffermio a bod prisiau tir yn rhy uchel i ffermwyr ifanc a newydd ddyfodiaid i ddechrau ffermio. Cafodd yr amodau hyn eu priodweddu i amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys newydd ddyfodiaid yn prynu ffermydd ac yn gosod tir; ffermwyr hŷn yn 'dal ymlaen' ac yn gosod ffermydd gan hawlio'r Taliad Sengl; a ffermydd godro yn ehangu trwy gymryd ffermydd bach drosodd a thrwy brynu tir.

### 3.6 Ffermydd godro fel achos arbennig

Roedd y dystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod ffermydd godro ar wahanol drywydd i fathau eraill o ffermydd. Er enghraifft, roedd y dystiolaeth yn dynodi bod gan ffermydd godro ganolbwynt busnes fferm unigol ar odro a'u bod yn cael eu gyrru gan y farchnad. Yn gyffredinol, roedd y Taliad Sengl yn gyfran fach o incymau ffermydd godro, a oedd yn golygu y byddent yn gallu ymdopi ag unrhyw newidiadau posibl i'r Taliad Sengl. Er mai prin oedd y ffermydd godro a oedd wedi arallgyfeirio, roedd rhai ffermwyr godro mewn sefyllfa i redeg busnesau cwbl ar wahân oddi ar y fferm. Hefyd, fel y nodwyd uchod, awgrymwyd bod tueddiad i ffermydd godro brynu ffermydd llai i greu unedau mwy.

Un broblem yn ymwneud â ffermio godro a oedd â goblygiadau i ffermio yn gyffredinol oedd, mae'n debyg, ei bod yn well gan broseswyr llaeth wasanaethu crynodiadau o ffermydd llaeth mewn ardal, am resymau yn ymwneud ag arbedion maint a chasglu. Nodwyd bod hyn yn gwneud busnes yn anodd i ffermydd godro llai a mwy anghysbell, ac roedd yn ffactor arall yn y tueddiad o unedau fferm mwy.

### 3.7 Cadernid a Bod yn Agored i Niwed a chynnal ffermio

O ran Cadernid a Bod yn Agored i Niwed a'r mynegeion a ddatblygwyd yn yr 'Arolwg o Aelwydydd Fferm' [AWC, 2010], dangosodd y dadansoddiad arhydol yn yr Adroddiad ar Gamau Un a Dau bod y ffermydd mwyaf Amlswyddogaeth a mwyaf Entrepreneuraidd yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o ddiwygio posibl y PAC a bod ffermydd Cadarn yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o ddiwygio posibl y PAC na ffermydd a oedd yn Agored i Niwed. Dynododd gwaith dadansoddi pellach mai'r ffermydd a oedd yn Arallgyfeirio Leiaf, y ffermydd Lleiaf

Amlswyddogaeth a'r ffermydd Lleiaf Entrepreneuraidd oedd y mwyaf tebygol o ddewis 'Busnes fel Arfer' o gael eu hwynebu â newidiadau posibl i'r Taliad Sengl. Hefyd, roedd ffermydd sy'n agored i niwed (h.y. ffermydd a oedd yn Arallgyfeirio Leiaf, y ffermydd Lleiaf Amlswyddogaeth a'r ffermydd Lleiaf Entrepreneuraidd) yn fwy tebygol o ddewis 'Busnes fel Arfer' neu adael ffermio pe bai cymorthdaliadau yn gostwng.

Roedd y dadansoddiad arhydol yn cefnogi'r dadansoddiad cyffredinol o'r safbwynt bod y ddau'n nodi ffactorau allweddol ar gyfer cynnal ffermio yng Nghymru. Roedd yn eglur o'r dadansoddiad arhydol bod ffermydd Cadarn yn tueddu i fod ag incymau Oddi ar y fferm, yn Arallgyfeirio a rhedeg mentrau Amgen. Ac amlygodd y dadansoddiad cyffredinol bwysigrwydd Arallgyfeirio, mentrau Amgen, bod yn Amlswyddogaeth ac incymau Oddi ar y fferm.

### 3.8 Rhwystrau i fod yn Amlswyddogaeth

Nododd yr ymatebwyr nifer o broblemau yn ymwneud ag agweddau amrywiol ar fod yn amlswyddogaeth. Mewn rhai ardaloedd, dadleuwyd nad oedd arallgyfeirio yn ymarferol oherwydd gorlenwi'r farchnad leol. Nododd ymatebwyr eraill rwystrau'n atal arallgyfeirio a phrosiectau ynni amgen a grëwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio. Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd bod ffermio yn fusnes hirdymor a'i bod yn anodd newid cyfeiriad. Dadleuwyd hefyd bod costau cychwyn ynni amgen yn rhy ddrud a bod angen mynediad at waith ymchwil, canllawiau a chefnogaeth o ran enillion posibl o arallgyfeirio a mentrau amgen yn gyffredinol.

### 3.7 Glastir

Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol, wrth gwrs, yn elfen arall o fod yn amlswyddogaeth a darparodd yr arolwg a'r cyfweliadau dystiolaeth o broblemau gyda Glastir. Awgrymwyd bod mynediad at Glastir wedi ei gyfyngu gan ormod o reolau a bod y cymhelliad ariannol i ymuno yn annigonol. Hefyd, dadleuwyd y byddai'r elfen a dargedwyd yn arwain at ostyngiad mewn llafur, a fyddai'n wael i'r economi leol. Yn cyd-fynd â dadleuon cynharach yn ymwneud â 'ffermwyr nad ydynt yn ffermio', awgrymwyd bod rhai o'r mathau hyn o ffermwr wedi ymuno â Glastir hefyd, er mwyn sicrhau incwm ychwanegol er nad oeddent yn cynhyrchu bwyd.

### 3.8 Yr Economi a'r Gymdeithas Leol

Dynododd tystiolaeth yr arolwg a'r cyfweliadau bod ffermwyr wedi eu hymsefydlu yn yr economi a'r gymdeithas leol. Er enghraifft, er bod rhywfaint o brynu mewn swmp o'r tu allan i'r ardal leol a bod da byw yn cael eu prynu a'u gwerthu'n lleol ac o gyn belled i ffwrdd â'r Alban, roedd y mwyafrif o fewnbynnau fferm yn cael eu prynu'n lleol. Dangosodd y ffermwyr ddymuniad i gefnogi busnesau lleol, nid yn unig oherwydd eu bod yn rhan hollbwysig o gymdeithas leol, ond oherwydd yr ystyriwyd eu bod yn fwy dibynadwy ac yn haws i ymdrin â nhw o ran cefnogaeth ar ôl gwerthu.

Roedd yn ymddangos bod mwyafrif y ffermwyr wedi eu trwytho mewn diwylliant ffermio, a oedd yn cynnwys synnwyr o le, hanes, cenedligrwydd Cymreig a'r angen i gynhyrchu bwyd. Fodd bynnag, roedd tybiaethau am gryfder y gymuned leol yn amrywio ac roedd dadleuon bod

cymunedau'n cael eu herydu gan ddatblygiad unedau fferm mwy a chan ffermydd yn cael eu gwerthu neu eu rhentu i newydd ddyfodiaid.

## Adran 4 Casgliadau a Goblygiadau Polisi

Yn gyffredinol, amcanion y prosiect ymchwil hwn fu darparu tystiolaeth systematig a chynrychiadol ar sut y gallai ffermwyr ymateb i'r newidiadau i incymau ffermio yn deillio o newidiadau posibl i'r PAC ar ôl 2013, ac i asesu'r hyn y gallai'r newidiadau a'r ymatebion hyn ei olygu i bolisïau ac ymyriadau Llywodraeth Cymru, yn ymwneud yn benodol â ffurf debygol Colofnau 1 a 2 yn y dyfodol. Dechreuodd y Casgliadau a'r Goblygiadau Polisi yn yr Adroddiad ar Gamau Un a Dau fodloni'r amcan hwn. Yn dilyn hyn, darparodd y dadansoddiad o'r cyfweliadau trylwyr yn yr Adroddiad ar Gamau Tri a Phedwar fwy o dystiolaeth a gwybodaeth fwy trylwyr, yn enwedig o ran sut y gallai'r economi a'r gymdeithas leol gael eu heffeithio gan newidiadau sy'n ymhlyg mewn diwygiadau posibl i'r PAC.

Er mwyn sicrhau cyflawnrwydd ac i gynnal cydlyniad, ailadroddir y casgliadau o'r Adroddiad ar Gamau Un a Dau, sy'n deillio o Ddadansoddiad Incwm Llywodraeth Cymru a'r arolwg, yma. Cânt eu hategu a'u gwella gan y dystiolaeth a'r dadansoddiadau o'r cyfweliadau trylwyr o'r Adroddiad ar Gamau Tri a Phedwar. Yn y testun a ganlyn, ni ailadroddir prif ganlyniadau a chanfyddiadau'r Adroddiad ar Gamau Un a Dau a'r Adroddiad ar Gamau Tri a Phedwar; yn hytrach, caiff goblygiadau polisi eu deillio ohonynt.

(i) Un o'r prif gasgliadau yw nad yw gwybodaeth am ddiwygio'r PAC, arferion sy'n gysylltiedig ag ef, a **chanfyddiadau a senarios y dyfodol o newid wedi'u halinio o gwbl**. Er enghraifft, nid oedd 40 y cant o ffermwyr yn ymwybodol o ddiwygio'r PAC ac roedd y gyfran hon yn cynyddu ar raddfa i 60 y cant wrth i faint y fferm ostwng. Felly roedd yn amlwg bod diffyg ymwybyddiaeth a chynllunio ar gyfer y newidiadau sy'n gysylltiedig â diwygio'r PAC. Roedd ffynonellau gwybodaeth yn ddarniog, fel y gellid creu negeseuon croes ac anghyseinedd polisi. Dim ond 14 y cant wrandawodd ar wybodaeth Llywodraeth Cymru, sy'n llawer is na'r 21 y cant sy'n gwrando ar yr undebau ffermwyr. Dibynnwyd yn fawr iawn ar y cyfryngau ffermio, ynghyd ag 'ar lafar gwlad'. Roedd bwlch gwybodaeth ac ymwybyddiaeth amlwg o ran y newidiadau posibl i'r PAC a'r manteision a'r heriau y gallai'r rhain eu creu. Roedd gan lawer o'r ffermwyr mwyaf agored i niwed ddiffyg gwybodaeth sylfaenol, a oedd wedyn yn gwaethygu problemau cynllunio busnes aneffeithiol. Efallai bod cryfder diweddar y farchnad eidion a defaid yn golygu bod llawer o ffermwyr yn teimlo eu bod mewn sefyllfa ddiogel.

(ii) Roedd **pesimistiaeth hefyd am y newidiadau posibl**, wrth i 60 y cant ddisgwyl gostyngiad i daliadau'r PAC, wedi eu gwyro tuag at y ffermydd mwy, a ffermydd godro yn arbennig. Roedd cyfrannau mwy o ffermwyr llai a ffermwyr mynydd yn disgwyl i incwm y PAC aros tua'r un fath. Mae'n ymddangos o'r canfyddiadau hyn bod proses o anghyseinedd gwybyddol yn dod i'r amlwg o ran disgwyliadau o ddiwygio'r PAC, gan mai dim ond 10 y cant sy'n disgwyl cynnydd i daliadau'r PAC ac mae'r sector nad yw'n ymwneud â godro yn arbennig o ansicr am gefnogaeth yn y dyfodol.

(iii) **Mae** ymarferoldeb teuluol a chadernid cymdeithasol cymharol yn erbyn newidiadau i'r PAC a mecanweithiau'r farchnad yn ffactorau allweddol yng nghynaliadwyedd poblogaeth ffermydd Cymru, yn enwedig o ystyried y patrwm deiliadaeth teulu-perchennog sy'n flaenllaw. Er bod ffermydd deiliadaeth gymysg

yn datblygu yn y categorïau fferm mwy, â chyfanswm o 19 y cant, roedd y rhan fwyaf o ffermydd yn dal i gael eu rhedeg gan deuluoedd a dim ond wyth y cant oedd yn eiddo rhent. Y darlun cyffredinol yw un lle mae o leiaf un neu ddau aelod o'r cartref teuluol yn rhedeg busnes y fferm ac yn ddibynnol i wahanol raddau ar incymau fferm. Lle'r oedd dau neu fwy o gartrefi (21 y cant) o fusnesau fferm yn rhedeg y busnes, roedd mwy o gyfle ar gyfer ffurfiau ychwanegol o incwm oddi ar y fferm ac arallgyfeirio. Roedd gan bron i 40 y cant o fusnesau fferm aelodau o'r teulu â 'swyddi oddi ar y fferm', sy'n cael effeithiau pwysig ar yr economi leol a rhanbarthol, ar gartref teuluol y fferm ac ar ei chadernid cymharol. Mae arwyddocâd cyflogaeth oddi ar y fferm yn arbennig o bwysig i oroesiad y ffermydd llai, lle y gall ategu a rhoi hwb sylweddol i incwm fferm. Er enghraifft, roedd aelodau iau a benywaidd o deuluoedd yn cyfrannu at incymau cartrefi teuluol cyffredinol sylweddol yn dros hanner y busnesau hynny yn y categorïau incwm uchaf (dros £31,000 y flwyddyn).

(iv) Mae darlun yn datblygu felly, lle mae gennym (i) **ffermydd cynhyrchiant amaethyddol** (yn enwedig ffermydd godro, a ffermydd eidion a defaid helaeth), sydd ag ymwybyddiaeth dda o ddiwygiadau'r PAC ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio busnes rhesymegol ar gyfer y dyfodol: (ii) **grŵp amlswyddogaeth sylweddol** (o hyd at 40 y cant) sy'n amrywio o ran maint, ond yn creu eu cadernid trwy gyfuniadau o gynhyrchiant amaethyddol a marchnata, incwm oddi ar y fferm a strategaethau arallgyfeirio; a (iii), fel y nodwyd gennym yn yr arolwg blaenorol [AWC, 2010], **grŵp o deuluoedd fferm llai sy'n ddifrifol o agored i niwed** sydd â fawr ddim gwybodaeth na ffordd o addasu i newidiadau sy'n deillio o'r farchnad neu'r PAC, ac nad ydynt yn cynllunio unrhyw fath o olyniaeth deuluol. Ar sail canlyniadau'r dadansoddiad incwm yn Adran 3 yr Adroddiad ar Gamau Un a Dau, os yw'r ffermydd hyn yn ffermydd godro, maent yn debygol o fod yn arbennig o uchel i fyny'r raddfa o ran bod yn agored i niwed.

(v) Dim ond 46 y cant o ffermwyr bach oedd yn **cynllunio olyniaeth** o'u cymharu ag 80 y cant o'r rhai mawr iawn. Yr hyn a welwn yma yw'r cyfuniad gwahaniaethol o atgynhyrchu cymdeithasol a dulliau atgynhyrchu economaidd, lle mae teuluoedd fferm yn dangos gwahanol lefelau o gadernid a gallu i addasu yn ôl y lefelau amrywiol o ymrwymiad i gynhyrchiant amaethyddol a/neu i fod yn amlswyddogaeth. Mae absenoldeb y naill neu'r llall o'r strategaethau hyn yn golygu bod y teulu a'i fusnes yn fwy agored i niwed.

(vi) Daeth mynegiant allweddol o'r amrywiadau hyn **yn ymatebion ffermwyr i enghreifftiau o newidiadau i'r PAC.** Roedd ffermydd amlswyddogaeth (ag incwm oddi ar y fferm, arallgyfeirio a mentrau amgen), neu ffermydd a oedd yn cynhyrchu mwy, yn llawer llai tebygol o weld y sefyllfa bresennol fel opsiwn. Ar y llaw arall, roedd cyfanswm o 34 y cant o ffermydd yn ystyried bod hon yn strategaeth pe bai taliadau yn gostwng 20 y cant, ac roedd hyn yn cynyddu i 65 y cant o ffermydd lle nad oedd incymau oddi ar y fferm. Roedd y ffermydd mwy hyblyg hyn hefyd yn llawer mwy tebygol o brynu mewnbynnau fferm yn lleol, o newid y math o ffermio, o arallgyfeirio gweithgareddau ac o gadw eu tir.

(vii) Er bod y lefelau cyfredol o **fabwysiadu mentrau amgen** (e.e. garddwriaeth, da byw amgen, cnydau ynni/ bio-ynni neu gnydau organig yn isel (llai na 10 y cant ym mhob categori), o gofio'r strategaethau a nodwyd uchod, gallai polisïau PAC diwygiedig annog llawer mwy i fanteisio ar y gweithgareddau amlswyddogaeth

hyn. Ceir potensial polisi sylweddol, yn enwedig trwy Golofn 2, i annog mwy o gapasiti ffermio yn y mentrau amgen hyn, o ystyried y lefelau sy'n manteisio arnynt ar hyn o bryd. Gallai hyn dargedu ffermydd bach a mawr a ffermydd o wahanol fathau. Mae angen mwy o rannu gwybodaeth, yn ogystal â gwasanaethau ehangu yn hyn o beth. Gwelwyd bod hyd at 10 y cant yn ystyried yr opsiynau hyn; ond mae angen mwy o gymhellion a gwybodaeth arnynt. Gellid alinio'r cymhellion a'r strwythurau cefnogaeth hyn ar gyfer mwy o arallgyfeirio a gwerth ychwanegol â pholisïau gofodol. Er enghraifft, gellid dewis rhai ardaloedd ucheldir a grwpiau o ffermwyr i annog datblygiad gwledig sy'n cynnwys mwy o arallgyfeirio, prynu a phrosesu lleol a'r ddarpariaeth o nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Byddai angen i bolisïau annog mwy o gydweithrediad ffermwr i ffermwr a ffermwr i brosesydd a manwerthwr.

(viii) Ar hyn o bryd, dylai trafodaethau ar ddiwygio polisi'r PAC ystyried cael gwared ar y **'nenfwd gwydr' o ran ei arallgyfeirio a'i wyrddu cyfredol**. Tan 2012, ac ers diwygiadau mawr 2002 mae'n debyg, bu rhywfaint o **effaith o wastadedd** o lai na 10 y cant o'r holl ffermwyr. Mae'r dystiolaeth yma'n awgrymu y gellid dyblu hyn o leiaf trwy gyfuniad o gymhellion wedi eu targedu ac amodau a osodir ar daliadau uniongyrchol y PAC. Os yw'r ffermwyr mynydd a defaid ac eidion yn debygol o barhau i dderbyn taliadau'r PAC hyfyw, os nad ychwanegol, dan y cynllun Colofn 1 yn seiliedig ar arwynebedd a gynigir, yna ceir dadl ddifrifol dros wneud hyn yn amodol ar (i) mabwysiadu mentrau arallgyfeirio ac amgen; a (ii) prynu a gwerthu yn fwy lleol ac yn rhanbarthol. Er efallai fod gweithgareddau arallgyfeirio traddodiadol fel llety ar y fferm a darparu gwasanaethau amaethyddol (y ddau ychydig dros 10 y cant) wedi cyrraedd sefyllfa o wastadedd, ceir cyfleoedd ar gyfer twf o ran mentrau ynni, organig a garddwriaethol, a allai hefyd alluogi ffermio i gyfrannu at nodau economi a chynaliadwyedd cefn gwlad ehangach. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried synergeddau polisi posibl yma rhwng nodau diwygiedig Colofn 1 a Cholofn 2 (y Cynllun Datblygu Gwledig). O'u plethu â'i gilydd, gallai'r ddau ysgogi mwy o ddulliau amlswyddogaeth ac felly llai o ddibyniaeth yn y dyfodol ar daliadau traddodiadol y PAC ar gyfer cynhyrchu amaethyddol fel y cyfryw. Mae angen i'r ddwy Golofn hwyluso'r newid i rôl amlswyddogaeth (a mwy cadarn) ffermio yn yr economi wledig trwy godi'r 'nenfwd gwydr' a'r gwastadedd sy'n cyfyngu ar ddatblygiad fector ehangach o weithgareddau arallgyfeirio ar hyn o bryd.

(ix) Mae angen i Lywodraeth Cymru roi sylw arbennig i ystyried sut y gallai **polisi cynllunio a thai gwledig** (a'r Bil Cynllunio newydd yn benodol) gynorthwyo i gynyddu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gweithgareddau o'r fath hefyd. Roedd ugain y cant o'r holl ffermwyr o'r farn bod cyfleoedd ar gyfer defnydd amgen o dir yn bwysig ar gyfer y dyfodol. Felly mae angen codi'r nenfwd gwydr, neu'r 'nenfwd gwyrdd' ar yr eco-economi sy'n seiliedig ar amaethyddiaeth, o 10 y cant arall o leiaf yn ystod cyfnod nesaf y PAC; a dylai holl wario'r PAC fod yn amodol ar ysgogiadau o'r fath. Mae hyn hefyd yn cysylltu â **pholisi tai mewn ardaloedd gwledig** o'r safbwynt y gallai caniatáu ffermwyr i droi adeiladau fferm segur at ddibenion tai neu dwristiaeth gefnogi eu hincymau yn ogystal â dechrau lliniaru prinder tai ac anghenion tai fforddiadwy. Felly mae angen gwneud polisïau cynllunio a thai yn fwy hyblyg a chysylltu ag arallgyfeirio ar y fferm a throi'r defnydd o adeiladau i dai a thwristiaeth leol a datblygu amwynderau. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig hefyd yn bwysig yn hyn o beth gan y gallai ysgogi mwy o arallgyfeirio ar ffermydd ac addasu adeiladau. Mae'n bwysig felly gweld

diwygiadau i'r PAC (ar ôl 2013) o ran creu mwy o synergeddau rhwng polisïau cynllunio a thai ar gyfer ardaloedd gwledig a datblygiad economaidd gwledig ehangach. Mae angen iddynt ysgogi cartrefi fferm ymhellach i ystyried arallgyfeirio eu tir a'u hadeiladau mewn ffyrdd sy'n creu incymau fferm mwy cynaliadwy a datblygiad economaidd lleol.

(x) Mae ffermwyr llai ac incwm oddi ar y fferm **yn prynu'n fwy lleol**; felly os byddant yn derbyn mwy o arian y PAC mae hyn yn fwy tebygol o wella'r ardal leol. Er y gallai hyn ddilyn, mae'n amlwg nad yw'n cymryd symiau gwirioneddol i ystyriaeth. Fel y gwyddom, mae ffermio godro yn gweithredu'n llai lleol, ond yn y sector da byw, mae marchnadoedd da byw a lladd-dai yn dal i fod yn rhannau pwysig o'r gymuned ffermio a phrosesu bwyd leol. Gellid adeiladu ar y seilweithiau hyn a'u hysgogi gyda chyllid Colofn 2. Dylai effeithiau lleol a rhanbarthol taliadau wedi eu diwygio gan y PAC gynyddu ac, unwaith eto, dylid eu gwneud yn amod ar gyfer derbyn cyllid. Mae prosesu bwyd yng Nghymru wedi cael ei 'gafnu'; ond mae'n adfywio mewn rhai ardaloedd. Mae angen cymhellion newydd i annog datblygiad busnes gwledig a threfi marchnad yng Nghymru o ran prosesu bwyd ac ychwanegu gwerth (gweler yr Adroddiad ar Gamau 1 a 2, Tabl 4.58).

(xi) Roedd ffermwyr yn **amheus o ddulliau gwyrddu cyfredol y PAC**, ac mae hyn yn rhesymol ac nid yw'n syndod o ystyried y pwyslais newydd (ar ôl 2008) yn y cyfryngau ffermio ar yr angen i gynhyrchu mwy o fwyd. Mae ffermwyr yn ceisio cael dealltwriaeth fwy soffistigedig ar ran llunwyr polisi yng nghyswllt y gyfatebiaeth newydd rhwng dulliau gwyrddu a'r cynhyrchiant newydd. Mae angen addysg ofalus a gwaith ehangu yn hyn o beth.

(xii) Mae'n ymddangos bod llawer o ffermwyr, yn enwedig y rhai yn y trydydd categori 'agored i niwed' uchod, **yn dioddef o fath o '**ymwybyddiaeth ffug' o ran newidiadau i'r PAC. Er enghraifft, nid oedd 47 y cant o'r arolwg yn rhagweld unrhyw newidiadau yn ystod y bum mlynedd nesaf ac rydym wedi gweld eisoes y ffaith bod disgwyliadau 'busnes fel arfer' yn flaenllaw; ond roedd 13 y cant yn disgwyl y byddent wedi gadael ffermio yn y degawd nesaf; ac roedd yn ymddangos mai cymharol brin oedd y ffermwyr a oedd â'r cymhelliad i dorri drwy'r 'nenfwd gwydr' arallgyfeirio. Mae'n bosibl bod amodau da diweddar y farchnad eidion a defaid yn esbonio hyn yn rhannol.

(xiii) Dynododd yr arolwg bod cyfanswm o 22 y cant, yn codi i 25 y cant yn y gogledd-orllewin, yn pryderu am yr hyfforddiant sydd ar gael. Dylid gwneud **pecynnau cymorth a hyfforddiant polisi** ar gael mwy ar gyfer datblygu sgiliau entrepreneuraidd wrth gynllunio busnes, cynllunio olyniaeth, adeiladu rhwydweithiau a defnyddio band eang a'u gwneud yn amod ar gyfer derbyn taliadau'r PAC. Efallai fod dadl dda iawn dros frigdorri cyllid y PAC (a chyllid datblygu rhanbarthol) ar gyfer creu'r seilweithiau gwybodaeth hyn ledled Cymru. Mae angen i'r Cynllun Datblygu Gwledig wella hyfforddiant a chyngor i ffermwyr o ran gostyngiadau parhaus i gefnogaeth y PAC a'r angen i ddatblygu mentrau mwy cadarn ac amlswyddogaeth. Gan nad yw 40 y cant o ffermwyr yn cynllunio olyniaeth, gan gynnwys niferoedd anghymesur o ffermydd bach ac eidion a defaid, mae angen brys i ddatblygu system cyngor a hyfforddiant cynllunio olyniaeth. Mae angen i hon fod yn elfen fwy amlwg o gynnig Llywodraeth Cymru i'r boblogaeth ffermio. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried ehangu swyddogaeth Cyswllt Ffermio, ac efallai y bydd angen iddi ystyried dulliau ac

offerynnau eraill, fel clybiau ffermwyr a datblygu consortia, a chymunedau ffermio yn ôl maes (e.e. ffermwyr organig, ffermwyr godro a ffermwyr eidion a defaid sy'n arallgyfeirio) . Yn amlwg, mae angen hefyd i hyn flaenoriaethu a chysylltu â chefnogaeth i ffermwyr ifanc a mwy o gydweithrediad a phartneriaethau gyda'r undebau ffermwyr yn hyn o beth.

(xiv) Mae'r data'n awgrymu y gellid rhoi mwy o bwyslais ar ddeall y **berthynas rhwng strwythurau teuluol a strategaethau ffermydd** wrth ystyried cynaliadwyedd, cadernid a galluoedd addasu ffermio yng Nghymru. Mae angen dadansoddi ymhellach priodweddau'r tair strategaeth a nodir uchod, gan fod y rhain yn ymddangos fel sefyllfaoedd realistig ar wahân i gwestiynau yn ymwneud â lleoliad y fferm. Yn gryno, y cyfuniad o ddeiliadaeth deuluol a phriodweddau cartrefi ynghyd ag amrywiaeth sgiliau cymharol a maint y ddibyniaeth amaethyddol sy'n tueddu i greu amrywiaeth o ymatebion i newidiadau i'r PAC ac i'r farchnad. Os yw cynnal ffermio teuluol bywiog yn rhan arwyddocaol o bolisi amaethyddol a gwledig Cymru, bydd gofyn ail-sgilio ac adfywio'r 20-30 y cant o ffermwyr llai a mwy agored i niwed sy'n debygol o adael y tir os bydd taliadau'r PAC yn cael eu gostwng o 20 y cant neu fwy. Gwneir y ffermwyr hyn yn fwy agored i niwed gan ddiffyg ffynonellau incwm eraill a'r gallu cymdeithasol i gyflawni hyn. Gallai'r adfywiad hwn tuag at fod yn amlswyddogaeth greu manteision sylweddol i'r economi leol.

Mae'r dadansoddiad arhydol yn Adran 4.8 yr Adroddiad ar Gamau Un a Dau yn atgyfnerthu'r casgliadau hyn o'r safbwynt y gallwn dystio i arwyddocâd setiau sgiliau teuluoedd fferm (er enghraifft, lefelau entrepreneuriaeth, gallu amlswyddogaeth) a'r ffaith bod mathau o strategaeth teuluoedd ffermio yn ffactorau pwysig o ran llunio pa mor gadarn a hyblyg yw ffermydd yn wyneb y newidiadau sydd ar fin cael eu gwneud i'r PAC. Roedd y ffermwyr hynny a oedd yn dangos lefelau uwch o'r ffactorau hyn yn llai tebygol o fabwysiadu 'strategaeth busnes fel arfer', ac felly'n llai agored i niwed o effeithiau newid i'r PAC. Felly, mae angen cydnabod er bod newidynnau statig fel math a maint fferm yn darparu'r paramedrau marchnad a pholisi eang ar gyfer gosod y lefelau hyblygrwydd, mae nodweddion mwy deinamig strategaethau ffermydd a theuluoedd yn nodwedd allweddol o gynaliadwyedd ac o faint o effaith leol y gallwn ei disgwyl.

Mae'r dadansoddiad gofodol o'r tair ardal a ddetholwyd yn Adran Pump yr Adroddiad ar Gamau Un a Dau yn tueddu i gefnogi'r dadansoddiad incwm cynharach, gydag o leiaf rhywfaint o amrywiad o ran yr enillion a'r colledion incwm sy'n debygol rhwng ffermydd godro a daliadau eidion a defaid helaeth. Mae'r dadansoddiad hwn yn hynod werthfawr o ran gosod cyd-destun ar gyfer yr arolygon mwy trylwyr o effeithiau lleol newidiadau i refeniw'r PAC. O ystyried bod ffermydd eidion a defaid mawrion yn enillwyr posibl oherwydd y newidiadau i'r PAC, byddai'n awgrymu y dylai pwyslais cryfach ar fwy o arallgyfeirio a lluosyddion lleol fod yn flaenoriaeth mewn ardaloedd megis y Gogledd-orllewin. Yno, roedd 51 y cant o ffermydd yn arallgyfeirio eisoes a gallai hyn ddangos potensial ar gyfer mwy o dwf, er bod llawer o ffermwyr yn gweld rhwystrau i'r strategaeth hon. Gallwn ddechrau gweld gwahanol sefyllfa yn y de-orllewin, lle mae bod yn fwy agored i niwed yn gysylltiedig â llai o daliadau'r PAC ar ffermydd godro, llai o arallgyfeirio ac ennill incymau lluosog. Yn y rhanbarthau hyn, mae'n ymddangos y byddai canolbwynt ar sut i newid strategaeth y ffermwyr godro llai yn briodol, o ystyried mai nhw yw'r mwyaf tebygol o fod yn agored i niwed o safbwynt incwm. Y ffermwyr hyn hefyd oedd fwyaf ynghlwm i brosesu llaeth a lladd-dai da byw lleol (gweler Tabl 5.25 yr Adroddiad ar Gamau Un a Dau), sy'n golygu os ydynt yn agored i niwed yna mae'r cyfleusterau prosesu lleol hyn yn agored i niwed hefyd. Mae hyn yn dechrau awgrymu y gallai newidiadau i'r PAC gael effeithiau lleol a rhanbarthol sylweddol i fyny ac i lawr y gadwyn, â dadfuddsoddiad cyffredinol mewn

ardaloedd lle mae ffermydd godro yn flaenllaw, fel y de-orllewin, ac o leiaf y gynhaliaeth o gyfleusterau lleol yn ardaloedd y gogledd-orllewin a'r canolbarth. Hefyd, mae'r ddibyniaeth ar farchnadoedd da byw lleol yn ardaloedd y gogledd-orllewin a'r canolbarth yn drawiadol; cymaint felly fel y gallwn ddechrau gweld trydedd lefel o achos o amrywiad i newidiadau i'r PAC, ar ôl (i) maint, math ac incwm fferm; a (ii) strategaeth a setiau sgiliau ffermydd a theuluoedd. Yn drydydd, (iii) daw rhywfaint o fod yn agored i niwed a chyfleoedd gofodol gwahaniaethol, sy'n gysylltiedig â'r gwahanol lefel a math o ymsefydlogrwydd lleol a rhanbarthol y mae grwpiau o ffermydd yn ei ddangos yn eu hardaloedd lleol. Mae hyn yn gysylltiedig â'u lefel o brynu a marchnata, ac yn dod cymaint â hynny'n bwysicach wrth i economïau wedi eu harallgyfeirio mwy ac eco-economïau ardaloedd gwledig ddatblygu momentwm (cyfuniadau o fwyd, ffibr, ynni a darpariaeth o amwynderau - gweler Kitchen a Marsden, [2009]). Mae'n atgyfnerthu'r pwyntiau a wnaed yn gynharach y dylai unrhyw newidiadau i'r dosbarthiad o gymorthdaliadau'r PAC hefyd gynnwys pob un o'r tair lefel hon o amrywiad. Felly mae pwyslais ar setiau sgiliau a phrynu a gwerthu lleol a rhanbarthol (cydweithredol) yn dod yn feysydd pwysig ar gyfer arloesi polisi.

Yn gyffredinol, rydym yn gweld o'r dadansoddiad gofodol bod cyfres o ffactorau generig yn effeithio ar ymatebion ffermwyr, yn gysylltiedig â'u strategaethau ffermio, cylch a sefyllfa eu teulu a'u gallu i ennill incymau oddi ar y fferm. Mae'n eglur bod patrymau cyffredinol i hyblygrwydd, bod yn agored i niwed, cadernid a bod yn amlswyddogaeth. Fodd bynnag, bydd newidiadau dosbarthu i refeniw'r PAC yn cael effeithiau ar y patrymau a strategaethau cyffredinol hyn, ac ar ansawdd a gwerth marchnadoedd lleol a rhanbarthol a chadwynau cyflenwi mewn gwahanol rannau o Gymru. Fel y mae Tabl 5.24 a Thabl 5.25 yr Adroddiad ar Gamau Un a Dau yn ei ddynodi, mae ffermwyr Cymru yn fasnachwyr mawr mewn nwyddau a gwasanaethau ar y lefel leol a rhanbarthol, waeth beth fo'r rhanbarth neu'r math o fferm. Fodd bynnag, gallai newidiadau i refeniw'r PAC wella neu amharu ar y cysylltiadau marchnad 'clystyrog' hyn, gyda chyfartaledd o 81 y cant o fewnbynnau a gwasanaethau yn cael eu prynu'n lleol.

Gan droi'n olaf at y cyfweliadau trylwyr, mae'r dadansoddiad yn yr Adroddiad ar Gamau Tri, Pedwar a Phump yn atgyfnerthu'r canfyddiadau o'r arolwg. O'r wybodaeth a gafwyd o'r dadansoddiad hwn, gallwn ddechrau gweld beth allai sgil-effeithiau diwygio'r PAC a newidiadau i'r Taliad Sengl fod ar gymdeithas cefn gwald a'r economi yng Nghymru wledig. Mae tri phwynt allweddol a chysylltiedig yn sefyll allan.

Yn gyntaf, ceir y dystiolaeth o ymsefydlogrwydd yn yr economi leol a'r berthynas rhwng ffermwyr a chymunedau lleol. Fel y trafodir uchod, mae'r arolwg yn yr Adroddiad ar Gamau Un a Dau yn dangos bod ffermwyr yng Nghymru yn masnachu, hynny yw prynu ac, i raddau llai, gwerthu, yn yr economi leol yn bennaf. Cefnogir y canfyddiadau hyn yn ansoddol gan y dadansoddiad o gyfweliadau yn yr Adroddiad ar Gamau Tri, Pedwar a Phump. Darperir tystiolaeth feintiol gan y diagramau 'rhosyn' yn yr Adroddiad ar Gamau Tri, Pedwar a Phump, sy'n dangos patrymau masnachu ffermwyr o safbwynt ariannol. Hefyd, mae'r graff yn Ffigur 4.1 yn yr Adroddiad ar Gamau Tri, Pedwar a Phump (a atgynhyrchir fel Ffigur 2.3 yn yr adroddiad terfynol hwn) yn plotio 'gwariant lleol' yn erbyn dibyniaeth polisi o ran y Taliad Sengl. Gallwn weld o'r dadansoddiadau graffigol hyn y byddai newidiadau i'r Taliad Sengl yn cael effeithiau sylweddol ac amrywiol yn lleol.

Yr ail bwynt allweddol yw bod y dadansoddiadau ar draws y ddau adroddiad yn dangos bod ymsefydlogrwydd yn yr economi leol a dibyniaeth polisi ar y Taliad Sengl yn amrywio. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod yr amrywiad hwn yn gysylltiedig â'r math o fferm ac â maint economaidd. O ystyried y dosbarthiad cyffredinol o fathau o ffermydd yng Nghymru, ac o

gymryd y dadansoddiad yn Ffigur 2.3 i ystyriaeth, mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd yr agweddau gofodol ar y dadansoddiad.

Mae hyn yn arwain at y trydydd pwynt allweddol. O gymryd y ddau bwynt allweddol cyntaf gyda'i gilydd a'u hintegreiddio â'r arsylwadau polisi a'r argymhellion a wneir uchod yn (iii), (iv), (v), (vi) a (vii) yn ymwneud â phwysigrwydd incymau oddi ar y fferm ac elfennau amlswyddogaeth fel arallgyfeirio, mentrau amgen, eco-economaidd a bio-economaidd ac ymgysylltiad â chynlluniau amaeth-amgylcheddol o ran datblygu cadernid mewn ffermydd teuluol a chynnal y diwydiant ffermio, fel cynhyrchydd bwyd, ffibr a thanwydd, mae darlun amrywiol o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl a'r elfennau allweddol eraill o gadernid yn dod i'r amlwg.

I grynhoi, gallwn ddweud y bydd y newidiadau posibl i'r Taliad Sengl a achosir gan y newid i daliadau yn seiliedig ar arwynebedd ar ôl diwygio'r PAC yn cael effeithiau lleol sylweddol. Lleol yw'r term allweddol yma. Bydd yr effeithiau hyn yn amrywio; ac mae amrywiad yn dod yn sgil amodau lleol o ran daearyddiaeth, maint fferm a math o fferm.